

CYFARFOD ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS - PAPUR TYSTIOLAETH

Sefydliad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad cyflwyno: 13 Tachwedd 2025

Dyddiad i cyfarfod: 20 Tachwedd 2025

Cwblhawyd gan: Bwrdd BIPBC

Yn mynychu wyneb yn wyneb o BIPBC:

- Dyfed Edwards - Cadeirydd
- Gareth Williams – Is-gadeirydd
- Claire Budden – Aelod Annibynnol
- Urtha Felda – Aelod Annibynnol
- Carol Shillabeer – Prif Swyddog Gweithredol
- Dr Clara Day – Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- Russell Caldicott – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- Pam Wenger – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
- Tehmeena Ajmal – Prif Swyddog Gweithredu
- Paolo Tardivel -Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Dros Dro)

Mae'r pecyn tystiolaeth hwn wedi cael ei lunio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ategu'r Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus rhwng Gweinidogion Cymru a'r Bwrdd ar 20 Tachwedd 2025. Mae wedi cael ei lunio yn unol ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwyniad

Mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu'r cyfle i ddarparu'r pecyn tystiolaeth hwn mewn perthynas â'r Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus y disgwylir ei gynnal ar 20 Tachwedd 2025. Mae'r Bwrdd, sydd yn newydd i raddau helaeth, wedi'i lunio o fis Mawrth ymlaen, wedi cofleidio didwylled a thryloywder fel elfen graidd o'i ymagwedd lle caiff cynnydd a heriau eu mynegi'n glir.

Nod y pecyn tystiolaeth hwn yw darparu gwybodaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid ehangach a phobl Gogledd Cymru am gyd-destun y Bwrdd Iechyd fel rhan o GIG Cymru ehangach a'r sector cyhoeddus; cyflawni gwelliannau yn ystod y flwyddyn, a chrynodeb a rhagolwg, ar draws y meysydd canlynol fel y'i nodir gan Lywodraeth Cymru:

1. Cyllid, Cynllunio ac Uwchgyfeirio
2. Gwella Mynediad i Bawb
3. Paratoi Gwasanaethau ar gyfer y Dyfodol
4. Atgyfnerthu Sut Rydym yn Cynnal y GIG
5. Materion Lleol y Bwrdd

Cynnwys

1.0 - Cyllid, Cynllunio ac Uwchgyfeirio	3
1.1 Cyllid, Cynaliadwyedd a Gwerth	4
1.2 Uwchgyfeirio a chynnydd yn erbyn gofynion isgyfeirio.....	8
1.3 Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol.....	9
1.4 Newid gwasanaethau.....	11
1.5 Gweithio Rhanbarthol	14
1.6 Cynnydd yn erbyn Camau Galluogi Gweinidogion.....	14
2.0 Gwella Mynediad i bawb	15
2.1 Gofal wedi'i Gynllunio, Canser a Gweithgarwch Diagnostig.....	16
2.2 Gofal Brys a Gofal Argyfwng gan gynnwys Oedi mewn Llwybrau Gofal	22
2.3 Iechyd Meddwl	27
2.4 Ansawdd a diogelwch, profiad cleifion ac adborth	30
3.0 Paratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol	34
3.1 Gwella Gwasanaethau Iechyd Menywod, Mamolaeth ac Iechyd Meddwl..	34
3.2 Atal Salwch yn Fwy Effeithiol	42
3.3 Cynnig mwy o wasanaethau yn y gymuned.....	46
3.4 Gwireddu potensial dulliau digidol ac arloesi	49
4.0 Atgyfnerthu sut rydym yn cynnal y GIG	51
4.1 Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant.....	51
4.2 Gwytnwch - recriwtio/cadw staff a lles staff.....	53
5.0 Materion Lleol y Bwrdd.....	56

1.0 - Cyllid, Cynllunio ac Uwchgyfeirio

Meysydd a gwmpesir:

- 1.1 Cyllid, cynaliadwyedd a gwerth
- 1.2 Uwchgyfeirio a chynnydd yn erbyn gofynion isgyfeirio
- 1.3 Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol
- 1.4 Newid gwasanaeth
- 1.5 Gweithio rhanbarthol
- 1.6 Cynnydd yn erbyn Camau Galluogi'r Gweinidogion

Cyd-destun

Pan gafodd y Bwrdd ei ailsefydlu ym mis Mawrth 2023, roedd y sefydliad yn wynebu heriau ariannol sylweddol a rhagwelwyd bod diffyg posibl o ryw £200 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Cafodd hyn ei gymhlethu ymhellach gan ddiffygion llywodraethu, gan gynnwys cyfrifon statudol amodol ar gyfer 2021/22 a 2022/23, diffyg strwythurau atebolrwydd, a systemau rheoli mewnol cyfyngedig. Roedd materion arwyddocaol a phroffil mawr yn ymwneud â rheoli cyfrifon yn cynnwys goblygiadau ehangach i'r staff a'r sefydliad ehangach.

Ers hynny, mae cryn gynnydd wedi'i wneud ym maes llywodraethu a pherfformiad ariannol. Mae'r prif gamau gweithredu wedi cynnwys cefnogi fframweithiau perfformiad, rhoi Cynllun Cadw a Dirprwyo diwygiedig ar waith gan gynnwys rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol, rheolaethau sefydliad, a ffocws ar gydymffurfiaeth â rheoliadau caffael. Mae'r mesurau hyn wedi arwain at wella enw da am lywodraethu a chyfrifon diamod ar gyfer 2023/24 a 2024/25 (tystysgrif iechyd lân) ac nid oes unrhyw newid rhwng y drafft a'r cyflwyniad terfynol. Mae Archwilio Cymru wedi cyfeirio at welliannau sylweddol, gan gynnwys datblygu offeryn mapio sy'n cynnig tryloywder llawn o ran trafodion ariannol o'r cyfriflyfrau ffynhonnell i'r Datganiadau Ariannol, gan ategu diwylliant o dryloywder.

Mewn perthynas â pherfformiad ariannol, gwnaeth alldro'r Bwrdd lechyd ar gyfer 2023/24 wella i ddangos diffyg o £24 miliwn, a gwnaeth cyflawni wella ymhellach yn 2024/25 trwy sicrhau diffyg o £7.6m gan gael effaith gadarnhaol ar gyfanswm o reolaeth ariannol o £8.8 miliwn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, cafodd cynllun ariannol cytbwys yn y [Cynllun Tymor Canolig Integredig \(IMTP\)](#) ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

Mewn perthynas â chynllunio, gwnaeth y Bwrdd wedi'i ailsefydlu gydnabod nad oedd y sefydliad wedi gallu cyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion yn unol â Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Gwnaeth adolygiad annibynnol o gynllunio yn y Bwrdd lechyd, a gynhaliwyd gan Sally Attwood yn 2023, amlinellu meysydd allweddol ar gyfer gwella gan gynnwys dulliau cynllunio strategol a gweithredol a galluoedd, cynllunio a newid gwasanaethau a datblygu strategaeth sefydliadol a chynllun gwasanaethau clinigol yn y tymor hir.

Gan dderbyn yr argymhellion hyn, ym mis Medi 2023, gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo [Fframwaith Cynllunio Integredig](#), y cyntaf o'i fath ar gyfer y sefydliad. Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud o ganlyniad, gan gynnwys i'r mecanweithiau yn y sefydliad ar gyfer arweinyddiaeth ac arolygu cynllunio strategol a newid gwasanaeth ar lefel y Bwrdd ac ar lefel Weithredol. Cafodd [IMTP](#) ariannol cytbwys ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Yn anffodus, ni chafodd hyn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

1.1 Cyllid, Cynaliadwyedd a Gwerth

Y sefyllfa ariannol bresennol

Mae hinsawdd ariannol bresennol GIG Cymru yn ystod 2025/26 yn parhau i fod yn hynod heriol, ac mae'r holl Fyrddau lechyd yn adrodd ar sefyllfaoedd o ddiffyg yn ystod y flwyddyn. Ym Mis 6, mae diffyg Cymru gyfan hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn yn sefyll ar £129 miliwn. Mae dau Fwrdd lechyd yn GIG Cymru yn unig sy'n parhau i ragweld bod mewn sefyllfa o adennill costau wrth gyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol, ac mae Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn un o'r rhain. Fodd bynnag, mae cyflawni ystod o gamau lliniaru'n allweddol i lwyddiant.

Yn BIPBC, mae risgiau rhagolygon i gyflawni'r ddyletswydd statudol i adennill costau yn cynnwys diffyg o £15.1 miliwn hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn a chyfanswm risg o £40.8 miliwn. Mae'r risgiau hyn yn deillio o gostau'n gor-reddeg, pwysau cenedlaethol, ailalinio'r gweithlu, ac adfachu posibl.

Gallai methiant i gyflawni'r cynllun ariannol arwain at golli £82 miliwn o gyllid Gwella a Thrawsnewid ar gyfer 2026/27. Mae hyn yn cynnwys £40 miliwn o gyllid cymorth diffyg cylchol a £42 miliwn o gyllid perfformiad a thrawsnewid anghylchol. Mae mynd yn groes i reoliadau a risgiau i ddyraniadau adnoddau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru hefyd yn peri pryderon sylweddol.

I liniaru'r risgiau hyn, mae uwchgyfeiriadau ar waith, gan gynnwys rheolaethau sefydliad gwell, rhoi'r gorau i ddefnyddio asiantaethau anghlinigol, craffu ar wariant nad yw'n gysylltiedig â chostau staff, a gostyngiadau cost o 1% wedi'u targedu ar draws yr holl feysydd a chyfarwyddiaethau. Mae'r Cynllun Adfer Ariannol yn amlinellu strategaethau arbedion a lliniaru, ac mae ymdrechion yn parhau i ganfod cyfleoedd ac i roi mesurau rheoli ar waith.

Perfformiad Ariannol

Er nad yw'r Bwrdd lechyd yn rhagweld diffyg ariannol, mae pwysau sylweddol yn cael ei brofi, ac mae'r diffyg hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn o £15.1m yn canolbwyntio ar;

- £4.8m - Prisiau a thwf mewn gweithgarwch trawsffiniol
- £4.7m - Pwysau capasiti i wasanaethu cleifion
- £3.5m - Costau i gynorthwyo lleoliadau ar gyfer cleifion lechyd Meddwl y tu allan i'r ardal

- £2.1m - Diffyg cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwyr

Mae'r alldro rhagolygol yn cynnwys yr uchod wedi'i allosod hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn ogystal â risgiau pellach i gyflawni, fel y'i nodir isod;

- £14.8m - Capasiti ychwanegol a lleoliadau lechyd Meddwl y Tu Allan i'r Ardal
- £ 9.4m - Pwysau cenedlaethol mewn perthynas â diffygion posibl o ran Cronfa Risg Cymru
- £12.4m - Pwysau yn y gweithlu a phrisiau a thwf o ran gweithgarwch trawsffiniol
- £ 4.2m - Diffyg o ran cyllid Yswiriant Gwladol Cyflogwyr


Ar hyn o bryd, £40.8m yw'r risg i gyflawni'r alldro wedi'i gynllunio, ac mae'r dadansoddiad yn cynnwys elfennau'n ymwneud â phwysau nad yw wedi'i ragweld wrth gadarnhau'r cynllun ariannol (mae Cronfa Risg Cymru ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yn enghreifftiau o ddiffygion cyllid). Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i roi ffocws ar ddatblygu camau lliniaru er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r alldro wedi'i gynllunio yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gan hefyd ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Cynnydd yn erbyn Arbedion a Chynlluniau Gwerth a Chynaliadwyedd

Mae perfformiad arbedion wedi bod yn gryf, ac mae'r arbedion wedi'u targedu o £40 miliwn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn wedi cael eu hategu trwy roi Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith, gan dargedu cyflawni gwelliannau o fewn y canlynol;



- | | |
|---|--------|
| • Amrywio Clinigol | £ 2.3m |
| • Rheoli Meddyginiaethau | £10.0m |
| • Gofal lechyd Parhaus | £ 7.7m |
| • Gweithlu | £11.6m |
| • Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff ac arall | £ 8.4m |

Mae'r model cyflawni hwn yn adlewyrchu hyn ar y lefel genedlaethol ac mae'n ceisio adeiladu ar arfer gorau ledled Cymru o ran gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Mae'r modelu ar gyfer arbedion wedi'u targedu wedi'i nodi isod:



Mae'r Bwrdd lechyd wedi nodi cynlluniau sydd wedi'u graddio'n wyrdd sy'n cyflawni'r arbedion wedi'u targedu o £40m. Mae angen cynlluniau pellach o gyfanswm o £5m i ategu cyflawni yn ystod y flwyddyn / lliniaru costau sy'n gor-redeg ac i sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cael cyfle i gyflawni arbedion wedi'u targedu yn y dyfodol fel y'i nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).

Mae enghreifftiau o'r ddogfennaeth a ddefnyddiwyd i ategu cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd yn y tabl canlynol;



Cynnydd yn erbyn yr IMTP/Cynllun Cyflawni Blyneddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau chwarterol yn manylu ar roi ymrwymadau'r IMTP/Cynllun Cyflawni Blyneddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith. Mae'r adroddiadau allweddol wedi cynnwys:

- **Mynediad at arbenigeddau** - Mae cynnydd calonogol yn cael ei wneud ar draws yr wyth wasanaeth sy'n wynebu heriau a gafodd eu huwchgysfeirio o dan Fesurau Arbennig, mynd i'r afael â heriau yn y gweithlu, gwella perfformiad a lliniaru pryderon ansawdd a diogelwch. Plastigau ac Oncoleg sydd wedi gwneud y gwelliannau mwyaf ac mae Llywodraeth Cymru yn adolygu eu statws isgyfeirio.
- **CAMHS** - Mae model argyfwng gwell wedi gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc, ac mae lleihad o 30% mewn derbyniadau ysbyty pediatrig a lleihad o 70% mewn cyflwyniadau adran 136 gyda chyswllt gwell y tu allan i oriau o 2024 hyd at 2025 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol a lleihad o 31% mewn derbyniadau heb eu trefnu i wardiau pediatrig mewn ysbytai aciwt.
- **Amgylchedd ac Ystadau** - sicrhawyd buddsoddi sylweddol ar gyfer offer diagnostig a thrin a fydd yn gwella capasiti, gwella llwybrau cleifion, ac yn ategu cynaliadwyedd gwasanaethau clinigol. Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd ar draws nifer o gynlluniau cyfalaf gan gynnwys casgliad o Hybiau Iechyd a Lles. Mae datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra, yn un o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig, bellach wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ar Gam 1 ac mae'n aros i Lywodraeth Cymru ei adolygu.
- **System Rheoli Ansawdd (QMS)**- Mae'r Hwb QMS byw ac ymagwedd BIPBC wedi cael eu nodi fel un o'r rhai gorau yng Nghymru. Mae hyn bellach wedi cael ei gyflwyno ar draws y Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau yn ogystal â chael ei brofi mewn ystod o adrannau gwahanol.
- **Sefydliad a Arweinir gan Wybodaeth** – gwnaed gwelliannau i ategu gwneud penderfyniadau ar sail data; lansio porth gweithredol IRIS wedi'i ailddatblygu i ddarparu gwybodaeth mewn amser real i ategu monitro perfformiad, cynllunio, optimeiddio adnoddau a gwybodaeth well am reoli'n ymwneud â llwybrau a llif cleifion.
- **Darpariaeth Ddigidol** – Datblygu nifer o ddatrysiadau digidol allweddol sydd wedi gwneud cynnydd da yn ystod 2025/26 i ategu moderneiddio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen System Gwybodaeth Radioleg (RISP), System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS), System Mamolaeth Ddigidol, Cofnod Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl, Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA).

- **Diwylliant ac Arweinyddiaeth** - Mae cam darganfod y Rhaglen Newid Diwylliant ac Arweinyddiaeth wedi dod i ben bellach. Mae'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau yn cael ei integreiddio i systemau, polisïau a ffyrdd o weithio.
- **Y Gymraeg** – arwain y ffordd ac yn cael ei hystyried fel arfer gorau o ran gwella gwelededd, teilwra hyfforddiant a chydweithio ar draws gwasanaethau a helpu i integreiddio'r iaith Gymraeg a'i diwylliant i fywyd gwaith o ddydd i ddydd ac yn y bôn yn rhan o ofal cleifion.
- **Llywodraethu** – mae gwelliannau i lywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd yn ymwneud ag Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau yn dilyn newid proses a gytunwyd ym mis Ionawr 2025 wedi cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru fel maes arfer gorau yng Nghymru.
- **Gwerth a Chynaliadwyedd** – mae cynnydd positif wedi'i wneud yn erbyn y chwe ffrwd waith genedlaethol graidd. Bydd y ffrwd waith Amrywio Clinigol bellach yn elwa o benodi Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol parhaol. Cynllun arbedion ar fis 6 ar £45.3m yn erbyn targed o £40m.
- **Datblygu strategaeth** – yn ymdrin â'r Strategaeth Ddeng Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, mae hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod modd comisiynu a darparu gwasanaethau modern, cynaliadwy ac effeithiol. Mae'r camau cychwynnol pwysig ar y gweill, ac mae arweinyddiaeth ac ymgysylltu ag Aelodau'r Bwrdd, Partneriaid ac aelodau'r gymuned yn parhau, gan gynnwys digwyddiad strategaeth lwyddiannus wedi'i gynnal ar y cyd gyda Chomisiwn Bevan a gynhaliwyd ym mis Hydref a lle bu dros 70 o randdeiliaid yn bresennol.

1.2 Uwchgyfeirio a chynnydd yn erbyn gofynion isgyfeirio

Ym mis Chwefror 2023, cafodd y Bwrdd lechyd ei uwchgyfeirio i Lefel 5/Mesurau Arbennig yn dilyn pryderon difrifol am effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, llywodraethu, diogelwch cleifion, ac arweinyddiaeth.

Ers hynny, gwnaed gwelliant sylweddol ac atgyfnerthwyd capasiti a galluoedd mewn llawer o feysydd. Mae hyn wedi'i ategu gan ganfyddiadau gan Archwilio Cymru ac adroddiadau allanol eraill. Gwnaeth adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Gynnydd gyda Mesurau Arbennig a gyhoeddwyd ar 24 Hydref gydnabod "gwelliannau sylweddol a wnaed ar draws y Bwrdd lechyd yn cynnwys arweinyddiaeth, llywodraethu, ansawdd clinigol, a rheoli ariannol ers uwchgyfeirio i fesurau arbennig. Bydd Sylfeini'r Dyfodol yn sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn symud i roi model gweithredu newydd ar waith a fydd yn gwella perfformiad ac yn gosod y sylfeini angenrheidiol ar gyfer gwelliant cynaliadwy ar draws y system.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd, mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yn llwyr bod dal angen gwelliant brys o ran gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau gofal brys a

gofal argyfwng, ac mae'r ddau beth hyn yn feysydd blaenoriaeth gyda rhaglenni newid mawr.

Nid yw fersiwn derfynol Fframwaith Mesurau Arbennig a Meini Prawf Isgyfeirio Llywodraeth Cymru wedi cael ei chyhoeddi eto. Mae diweddariad ar y cynnydd a'r gwelliannau yn erbyn y meini prawf drafft i'w gael yn **atodiad 1**. Fel y cyfryw, nid yw Llywodraeth Cymru wedi isgyfeirio unrhyw un o'r meysydd ac mae statws uwchgyfeirio'r Bwrdd lechyd yn parhau i fod fel a ganlyn:

- Llywodraethau ac arweinyddiaeth – Lefel 5. Maw cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y maes hwn.
- Cyllid, strategaeth a chynllunio – Lefel 5. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y maes hwn.
- Ansawdd gofal – Lefel 5. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn ystod o feysydd, yn enwedig ym maes rheoli systemau (digwyddiadau, cwynion).
- Perfformiad a chanlyniadau – Lefel 5. Maes her allweddol, sy'n gofyn am wella sylweddol.

Mae gan y Bwrdd ystod o fecanweithiau y mae'n eu defnyddio i oruchwylio cynnydd sydd wedi'i alinio ag uwchgyfeirio ac ymyrraeth. Mae'r holl gamau gweithredu gofynnol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan adrodd bob chwarter wrth y Bwrdd. Mae pob Pwyllgor o'r Bwrdd yn goruchwylio camau gweithredu a meysydd gwaith penodol, gan gynnwys risgiau. Mae'r Weithrediaeth a swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnydd trwy Dîm Gweithredol ar y Cyd a chyfarfodydd Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig. Caiff y canlyniad ei rannu gydag aelodau ehangach.

1.3 Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol

Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gosod y sylfeini ar gyfer cynllunio strategol ac mae bellach mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r gyfres nesaf o gynlluniau strategol, gan weithio gyda phartneriaid, staff, y cyhoedd a chymunedau. Bydd hyn yn caniatáu cyd-greu cynlluniau sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau presennol, gwirioneddau gweithredol, ac anghenion esblygol poblogaeth Gogledd Cymru. Mae hyn eisoes wedi dechrau gan fod digwyddiad datblygu strategaeth mawr wedi'i gynnal ym mis Hydref 2025, gan ddod â sbectrwm eang o randdeiliaid mewnol ac allanol at ei gilydd.

Mae ymagwedd glir a strwythuredig bellach ar waith i lywio'r broses o ddatblygu cam nesaf cynllunio strategol gyda hyder ac eglurder. Mae'r Rhaglen yn cynnwys tri chynnyrch strategol rhyng-gysylltiedig; y Bwriad Strategol, y Strategaeth Ddeng Mlynedd, a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn darparu fframwaith i ddatblygu IMTP a Chynllun Cyflawni Blynnyddol (ADP) y Bwrdd lechyd.



Bwriad Strategol (gan gynnwys Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Bwrdd Iechyd) - Erbyn diwedd Ionawr 2026, cyhoeddi 'Bwriad Strategol ar gyfer Iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru' wedi'i greu ar y cyd gyda phartneriaid. Bydd yn cynnwys y 'pethau mawr' (nodau strategol) y bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio eu cyflawni dros y pump i'r deng mlynedd nesaf; un o gonglfeini'r Strategaeth.

Strategaeth Ddeng Mlynedd - Erbyn diwedd Mawrth 2026, dirwyn cyfnod Darganfod y Strategaeth i ben. Bydd hyn yn ategu datblygu strategaeth integredig unigol wedi'i thanategu gan gynlluniau strategol wedi'u halinio, er enghraifft, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, Iechyd Meddwl, y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, Ystadau, Digidol a Phobl.

Cynllun Gwasanaethau Clinigol- Erbyn diwedd Mawrth 2026, cytuno ar fethodoleg Cynllun Gwasanaethau Clinigol a sefydlu rhaglen Cynllun Gwasanaethau Clinigol. Bydd hwn yn manylu ar sut caiff gwasanaethau clinigol eu ffurfweddu i wella ansawdd, perfformiad a gwerth. Mae gwaith paratoi ar y gweill ac mae cam 1 yn canolbwyntio ar wasanaethau 'sy'n wynebu heriau'. Mae'r prif faterion sy'n deillio o'r gwaith paratoi yr ymgwymerwyd ag ef hyd yn hyn yn cynnwys ffurfweddu'r gwasanaeth, cynllunio'r gweithlu, diwygio llwybrau a defnyddio ystadau.

Caiff y cynlluniau hyn eu hategu gan :

- **Ffurfweddu Gwasanaethau:** Mae galw cynyddol a chymhlethdod triniaeth yn gofyn am fodel gofal gwahanol, gan gynnig gwasanaethau'n lleol lle bo'n bosibl gan gyfuno arbenigedd yn rhanbarthol lle bo angen. Mae oncoleg a llawfeddygaeth fasgwlaidd yn enghraifft o wasanaethau sydd eisoes yn gweithio ar yr ymagwedd hon, ac mae arbenigeddau eraill (e.e. Dermatoleg, Offthalmoleg, Gastroenteroleg) yn cymryd rhan yng nghramau cynnar gweithdai ailddylunio.
- **Cynllunio'r Gweithlu:** Mae heriau yn y gweithlu meddygon ymgynghorol wedi'u cymhlethu gan anawsterau recriwtio a gorddibyniaeth ar staff locwm. Mae mentrau'n cefnogi Graddedigion Meddygol Rhyngwladol (IMG), a chymhwyster Tystysgrif Cymhwyster ar gyfer Cofrestriad Arbenigol (CESR)

eisoed ar y gweill, ac mae cynlluniau hyfforddiant cydgysylltiedig yn dod i'r amlwg mewn cydweithrediad â Gogledd-orllewin Lloegr. Mae mynd i'r afael â bylchau yn y sefydliad a gwella lefelau cadw staff yn flaenoriaethau brys.

- **Diwygio Llwybrau:** Mae angen cydnabyddedig i eglurhau ffiniau gofal rhwng gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd ac i wella mecanweithiau 'Cyngor ac Arweiniad'. Er bod cynnydd mewn rhai meysydd e.e. teledermosgopi, mae diwygio llwybrau'n ehangach yn parhau i fod yn gyfle i'w ystyried ymhellach. Mae arweiniad cenedlaethol (e.e. GIRFT) ar gael i ategu'r gwaith hwn, ond bydd ymgysylltu â gofal sylfaenol a throsglwyddo adnoddau'n hollbwysig i gyflawni newid.
- **Defnyddio Ystadau:** Mae gwella defnydd o ystadau gymaint â phosibl yn hanfodol. Mae'n rhaid i'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol ddiffinio pwrpas a chynhyrchiant asedau ffisegol gymaint â phosibl, gan sicrhau bod modd alinio â modelau gwasanaeth a blaenoriaethau strategol.

1.4 Newid gwasanaethau

Mae nifer o elfennau o newid gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y Bwrdd gan gynnwys newid mawr (lle bydd angen newid sylweddol ar draws y sefydliad cyfan), newid allweddol (newid mwy diffiniedig i un neu fwy o feysydd gwaith) a newid gwasanaeth sylweddol posibl (lle y gallai fod angen addasu ffurfwedd neu ddull cyflwyno'r gwasanaeth). Caiff y gwaith hwn ei ymgorffori i'r broses Gynllunio Tymor Canolig Integredig ac adroddir arno i'r Bwrdd a Phwyllgorau cysylltiedig yn rheolaidd.

Rhaglenni Newid Mawr: Ym mis Mawrth 2025, gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r pedair Rhaglen Newid Mawr i lywio newid a gwelliant sylweddol a hirdymor yn seiliedig ar flaenoriaethau critigol wedi'u hasesu. Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar y meysydd mwyaf critigol ar gyfer gwella - moderneiddio ein model gweithredu, gwella gofal wedi'i gynllunio, sicrhau gwerth ac effeithlonrwydd, ac atgyfnerthu gofal brys a gofal argyfwng. Bwriad pob rhaglen yw mynd i'r afael â heriau systemig, ymgorffori arfer gorau, a chreu system iechyd wydn sy'n diwallu'r anghenion presennol wrth baratoi ar gyfer galw yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, maent yn gosod y sail ar gyfer llwyddiant strategol hirdymor a chanlyniadau gwell i gleifion. Y Rhaglenni yw:

1. **Rhaglen Gofal Brys a Gofal Argyfwng** - Mynd i'r afael â phwysau parhaus yn y system, mae'r rhaglen hon yn targedu ymyriadau hynod effeithiol er mwyn gwella llif, lleihau oedi, gwella diogelwch a gwella profiad cleifion. Mae'r rhaglen, a arweinir gan y Gweithredwyr Clinigol ynghyd â thasglu amlddisgyblaethol pwrpasol o arweinwyr clinigol profiadol, yn canolbwyntio ar ddewisiadau amgen cyn ysbyty, gwelliannau o ran drws ffrynt yr ysbyty, ac optimeiddio rhyddhau cleifion.
2. **Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio** - Mae'r rhaglen hon, sy'n canolbwyntio ar welliant sylweddol i fynediad ac effeithlonrwydd, yn safoni prosesau ar draws chwe ffrwd waith: rheoli rhestrau aros, optimeiddio cyfeiriadau, trefnu

apwyntiadau, effeithiolrwydd cyn llawdriniaeth ac yn ystod llawdriniaeth, gofal dilynol, a chynllunio integredig ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg, a chanser. Bydd hyn yn arwain at lwybrau cynaliadwy cyson, yn lleihau amrywiadau, ac yn cryfhau gweithio rhanbarthol. Mae cynnydd yn cynnwys mabwysiadu offer digidol yn gynnar i ddilysu cleifion a rheoli cyfeiriadau, ochr yn ochr â mentrau i symleiddio asesiadau cyn llawdriniaeth.

3. **Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd** - Mae'r rhaglen hon yn llywio adferiad ac effeithlonrwydd ariannol gan wella canlyniadau a phrofiad i gleifion. Mae'r rhaglen yn ymgorffori egwyddorion gofal iechyd ar sail gwerth er mwyn lleihau amrywiadau direswm a gwella gofal cleifion gan ddefnyddio'r fframwaith cenedlaethol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwerth £40m mewn arbedion gradd werdd a nododd gynllun o £45.2m ar draws pum ffrwd waith graidd: rheoli meddyginiaethau, gofal iechyd parhaus, gweithlu, costau nad ydynt yn ymwneud â staff a chaffael, ac amrywiadau clinigol.
4. **Sylfeini'r Dyfodol** - Er mwyn gwella effeithiolrwydd cynaliadwy'r sefydliad, mae'r rhaglen hon yn ailddylunio model gweithredu'r Bwrdd Iechyd trwy ymagwedd integredig yn ymdrin â strategaeth, diwylliant, pobl, strwythurau, a phrosesau. Mae'r model gweithredu diwygiedig yn mabwysiadu ymagwedd integredig tuag at ddatblygu Strategaeth Ddeng Mlynedd, Cynllun Gwasanaethau Clinigol, a chynllunio'r gweithlu. Gan ddefnyddio methodoleg Darganfod-Dylunio-Cyflawni, mae'r rhan fwyaf o ffrydiau gwaith wrthi'n cael eu dylunio bellach, ac mae'r camau cyflwyno cychwynnol ar y gweill. Bydd newidiadau strwythurol i Gam 1 yn parhau i fod yn destun ymgynghoriad yn ystod Ch 3/Ch 4, gan sicrhau aliniad â'r bwriad strategol hirdymor.

Trosolwg o'r Rhaglenni Allweddol: Mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o raglenni allweddol o fewn yr IMTP yn ategu cyflawni gwelliannau ar draws ystod o feysydd blaenoriaeth, wedi'u goruchwyllo gan y Grŵp Strategol Cynllunio a Newid Gwasanaethau (SPSCG). Mae'r Rhaglenni Allweddol yn cynnwys:

- **Cofnod Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl (EHR):** Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â gwella diogelwch cleifion ac effeithiolrwydd gofal yn ogystal â darparu offer modern ar gyfer staff. Mae Achos Busnes wedi cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac mae bellach yn symud at y cam caffael. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a disgwylir rhoi'r system newydd ar waith o 2026 ymlaen.
- **Uned Iechyd Meddwl Ablett:** Gwella darpariaeth y gwasanaeth iechyd meddwl gan gynnwys yr amgylchedd gofal, caiff achos busnes ei gyflwyno, yn unol â'r cwmmpas costau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ddechrau 2026.
- **Hwb Gofal wedi'i Gynllunio Llandudno:** Bydd canolfan ddewisol ar gyfer Orthopedeg yn y lle cyntaf yn darparu capasiti wedi'i ddiogelu ar gyfer gofal dewisol cyfaint mawr, gan weithredu fel canolfan ranbarthol.

- **Moderneiddio Radioleg (RISP):** y Bwrdd lechyd oedd y Bwrdd lechyd mwyaf cyntaf i fynd yn fyw gyda'r datrysiad radioleg modern ac integredig hwn. Bydd y rhaglen yn gwella effeithlonrwydd gweithredol ac yn gwella diogelwch cleifion.
- **Moderneiddio Gwasanaethau Labordy (LIMS):** Bydd y rhaglen genedlaethol hon yn cymryd lle dwy system etifeddol ac mae'n cymryd ei harwain gan DHCW. Mae BIPBC yn gwbl ymrwymedig i roi hon ar waith cyn gynted â phosibl ac mae'n aros am gynllun gweithredu cenedlaethol diwygiedig a therfyn amser.
- **Gwella Diogelwch ac Optimeiddio Meddyginiaethau trwy raglen ddigidol ePMA** - Mae'r rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau hirdymor o ran rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys aneffeithlonrwydd o ran llif gwaith, gwallau rhagnodi, a'r angen am gofnodion meddyginiaeth sy'n ddiogel ac mewn amser real. Mae lechyd Meddwl yn fabwysiadwydd cynnar ym mis Rhagfyr 2025 a disgwylir ei gyflawni'n llawn erbyn mis Mawrth 2026.
- **Hybiau Lles** - Caiff gwaith datblygu'r hybiau hyn ar lefel strategol ei drafod yn ystod y cyfarfod o'r Bwrdd ym mis Tachwedd, gan gynnwys Ysbyty Brenhinol Alexandra, Hwb Dinbych, Hwb Gorllewin Conwy, Hwb Caergybi, Hwb Bangor a Hwb Waunfawr a Phen-y-Groes.

Mae ystod ehangach o ddatblygiadau sydd wedi'u galluogi'n ddigidol wedi'u cynnwys yn ddiweddarach yn y pecyn tystiolaeth hwn.

Newid gwasanaethau sy'n arwain at ymgysylltu ac ymgynghori

Nod y gwaith Newid Gwasanaethau yw mynd i'r afael â newid gwasanaeth mewnol ac allanol posibl, gan sicrhau bod y gwaith pwysig hwn yn cael ei reoli'n briodol.

Newid Gwasanaeth Mewnol - Ysbytai Cymunedol Tywyn a Llannerch Banna

- Mae ymagwedd ymgysylltu agored a chynhwysfawr yn cael ei mabwysiadu â chymunedau lleol, staff a rhanddeiliaid ehangach wrth i ni weithio i ddatblygu modelau gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer Ysbytai Cymunedol Tywyn a Llannerch Banna. Mae'r ymgysylltu parhaus a dwfn hwn wedi'i angori gan ddull yr 'ystafell gytbwys' (cynrychiolaeth gyfartal o ran rhanddeiliaid cyhoeddus, clinigwyr, Llais, aelodau etholedig ac arweinwyr gweithredol) sy'n darparu llwybr cymesur, sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol ac sydd o ansawdd uchel ar gyfer penderfyniadau. Wrth ddirwyn yr ystafell gytbwys a'r gweithgareddau ymgysylltu cysylltiedig i ben, bydd y Bwrdd yn pennu'r ffordd ymlaen a ffefrir. Os ystyrir bod un o'r newidiadau hyn neu'r ddau yn newidiadau gwasanaeth 'sylweddol', bydd angen cynllunio ymgynghoriad ffurfiol.

Newid Gwasanaeth Allanol - Cynllun Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda (CSP)

- Gwnaeth y Bwrdd lechyd gyflwyno ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus BIP Hywel Dda i'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol (CSP) a bydd hefyd yn cyfrannu at Grŵp Datblygu Opsiynau CSP Hywel Dda. Bydd cydweithio agos rhwng y

ddau sefydliad yn parhau wrth i BIP Hywel Dda gymeradwyo ei argymhellion yn ddiweddarach eleni.

1.5 Gweithio Rhanbarthol

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu fel endid unigol yn 2009, erys ymagweddau, systemau a phrosesau sy'n wahanol yn eu hanfod ar draws y tair prif ardal ddaearyddol. Mae hyn yn arwain at anghydraddoldeb o ran mynediad, darpariaeth gwasanaeth sy'n wahanol ac ar adegau, yn is-optimaidd a materion yn ymwneud â chynaliadwyedd arbenigeddau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pwysleisio'r angen am ymagweddau cyson ar draws y sefydliad, gan weithredu fel rhanbarth. Bydd Rhaglen Sylfeini'r Dyfodol yn arwain at weithio rhanbarthol sy'n well o lawer. Mae rhai gwasanaethau ac arbenigeddau naill ai wedi symud eisoes at y model rhanbarthol neu maent yn ystyried yr ymagwedd newydd a bydd camau'n cael eu cymryd i ddod â hyn at ei gilydd yn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Model Gweithredu newydd. Er enghraifft, mae gwelliannau'n cynnwys cyflwyno 'Rhestr Trin Cleifion' unigol gyda gallu uwch o lawer i gleifion gael eu gweld yn gynt trwy fanteisio ar ofal ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd.

1.6 Cynnydd yn erbyn Camau Galluogi Gweinidogion

Mae cynnydd yn erbyn y Camau Galluogi Gweinidogion, fel y'i hamlinellir yn y tabl canlynol, yn dangos bod y mwyafrif o'r camau gweithredu o fewn cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd. Mae rhoi pob cam ar waith yn llawn ar draws y Bwrdd Iechyd mawr a chymhleth yn destun gwirio a herio ar y Grŵp Perfformiad Integredig Gweithredol.

Rhif	Camau Galluogi Gweinidogion	RAG
1	Rhoi meini prawf dilynol CIN ar waith yn y dyfodol ac yn ac ôl-weithredol o ran rhestrau aros gofal dilynol sydd wedi'u sefydlu.	A
2	Dylai dilysu clerdyddol a chlinigol fod ar waith yn barhaus a dylid adrodd arno bob chwarter o ran effaith.	G
3	Gwelliant o ran gweithredu a chyflawni rhestrau Theatr Cyfaint Uchel, Cymhlethdod Isel, gyda ffocws cychwynnol ar – Cataractau – 90% o restrau i gael 7 cataract am bob rhestr erbyn diwedd Ch 2.	A
4	Gweithredu'r fframwaith gwasanaethan asesu clinigol o bell – Rhaglen y Chwe Nod.	G
5	Sicrhau bob <u>capasiti</u> theatrau'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol trwy wella defnydd o'r sesiynau i safon GiRFT o 85% erbyn mis Mawrth 2026.	G
6	Ar 90% o ddiwrnodau, dylai <u>capasiti</u> cleifion mewnlod gofal wedi'i gynllunio/achosion dydd/adferiad theatr gael ei amddiffyn rhag pwysau gofal heb ei drefnu ac <u>alloleision</u> erbyn diwedd Ch 1.	A
7	Sicrhau bod monitro cyfraddau DNA/CNA ar waith ar gyfer pob clinig cleifion allanol. Pan fo DNA/CNA fel cyfradd gyfunol yn uwch na 5%, dylid gweithredu a monitro <u>gorarchebu</u> apwyntiadau ar gyfer cleifion ychwanegol.	G
8	Gwelliant o ran gweithredu a chyflawni rhestrau theatr Cyfaint Uchel, Cymhlethdod Isel gyda ffocws canlynol ar – 90% o'r amser, cyflawni o leiaf 6 o weithredoedd llawdriniaeth gyffredinol HVLC ar restr trwy'r dydd yn cynnwys torllengig neu <u>godn</u> y bustl erbyn diwedd Ch 2.	G
9	Gweithredu Cylchlythyr Iechyd Cymru – Arweiniad ar Ambiwlansys – Rhaglen y Chwe Nod.	R
10	Gweithredu fframwaith Llif Ysbyty Optimaidd ar waith – Rhaglen y Chwe Nod.	R
11	Rhoi canllawiau cenedlaethol trwy waith gyda throthwyon yn ôl Rhwydwaith Gweithredu Clinigol (CIN) a gweithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth effeithiol ar gyfer cleifion allanol trwy Sylw i Symptom (SOS) ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) yn ddiofyn. Bydd <u>CINs</u> unigol yn sefydlu targedau PIFU / SOS yn ôl arbenigedd ac is-arbenigedd yn barhaus erbyn mis Mawrth 2025.	A
12	Rhoi'r model eiddilwch aciwt ar waith wrth y Drws Ffrynt - Rhaglen y Chwe Nod	A
13	Cyflawni gwelliannau o ran cyfraddau llawdriniaethau dydd, gyda disgwyliad i gyflawni cyfradd achos dydd BACDS o 70% o fis Ebrill 2025, gan symud i 80% erbyn diwedd mis Mehefin 2025	A
14	Cynnal y camau gweithredu o fewn yr her 50 Diwrnod y gellir eu cyflawni'n gyson gyda'r adnoddau ychwanegol lleiaf, o fewn sefydliadau ac fel blaenoriaeth o fewn trefniadau partneriaeth rhanbarthol.	R
15	Sicrhau defnydd effeithiol o <u>gapasiti</u> yn y theatrau trwy - leihau achosion o orffen yn gynnar i lai na 10%	A
16	Dylai'r holl gyfeiriadau newydd ar gyfer Cataractau gael eu rhestru'n uniongyrchol ar gam triniaeth y llwybr ar ôl cael eu brysbenno ar lefel weinyddol erbyn diwedd Ch 2.	A
17	Rhoi Ymateb Cwmpsiadau yn y Gymuned ar waith - Rhaglen y Chwe Nod	A
18	Sicrhau defnydd effeithiol o <u>gapasiti</u> yn y theatrau trwy - leihau achosion o ddechrau'n hwyr i lai na 20%	A

19	Parhau i roi'r ymagwedd genedlaethol tuag at Ymyriadau nas cynhelir fel arfer (INNU) ar waith. Cyflawni'r wyth weithred sy'n flaenoriaeth sydd wedi'u pennu i'w rhoi ar waith fel rhan o Gam 1.	G
20	Parhau i roi'r ymagwedd genedlaethol tuag at Ymyriadau nas cynhelir fel arfer (INNU) ar waith - parhau i roi'r argymhellion ar waith trwy gydol 2025/26	A
21	Sicrhau bod modd cyflawni prosesau rheoli cyfeiriadau effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rhoi Llwybrau Iechyd (Rhaglen Cynghrair Llwybrau) ar waith yn gyson ar draws yr holl Fyrddau Iechyd trwy fabwysiadu'r 282 o lwybrau'n gyflym fel rhan o'r rhaglen.	G
22	Rhoi cymorth o ran gweithredu a chyflwyno ap GIG Cymru i gael yr effaith a'r budd mwyaf posibl i gynnwys gwelliant o ran ei ddefnydd ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy .	G
23	Sicrhau cynnydd o ran gweithredu llwybr Gwerth Mawr, Effaith Fawr Gweithredu Gwerth a Chynaliadwyedd - Diabetes	A
24	Sicrhau bod modd rhoi'r llwybrau sydd wedi'u hoptimeiddio ar waith yn llawn fel rhan o'r rhaglen adferiad canser	A
25	Sicrhau cydymffurfiaeth lawn ag arweiniad profi'n syth.	A
26	Sicrhau cynnydd o ran gweithredu llwybr Gwerth Mawr, Effaith Fawr y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwy - Iechyd Esgyrn	A
27	Sicrhau cynnydd o ran gweithredu llwybr Gwerth Mawr, Effaith Fawr y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwy - Arthroplastï (Y Glun a'r Ben-glin)	G
28	Sicrhau bod modd rhoi blaenoriaethau digidol cenedlaethol ar waith, yn benodol gweithredu'r system mamolaeth ddigidol, ac ap GIG Cymru.	G
29	Cael gwared ar systemau a dyfeisiau nas cynhelir, a sicrhau bod cynllun ymateb seiber clir ar gyfer y sefydliad	A
30	Costau nad ydynt yn ymwneud â chostau staff - sicrhau bod modd rhoi argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith, sy'n cynnwys gweithredu lleol o ran dewis cynnyrch sydd wedi'u cymeradwyo a'u mandadu ar lefel glinigol er mwyn gwella cyfran y farchnad a chynnig y gwerth gorau.	G
31	Rheoli Meddyginiaethau - sicrhau bod bodd rhoi rhaglen meddyginiaethau gwerth uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith, sy'n cynnwys cyflawni cyfleoedd yn erbyn pob un o'r pedwar maes rhaglen (uchafu defnydd o feddyginiaethau biodebyg , newid i rai generig, defnydd ffatriol o feddyginiaethau mewn gofal sylfaenol, cyfyngu ar bresgripsiynau gwerth isel)	G
32	Ystadau - sicrhau camau gweithredu parhaus i atgyfnerthu defnydd o ystadau gan gynnwys addasu ystadau at ddibenion gwahanol a gwaredu ystadau a danddefnyddir yn briodol.	A
33	CHC - sicrhau bod modd rhoi argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith sy'n cynnwys camau gweithredu pellach i wella effeithiolrwydd clinigol ac ariannol sy'n gysylltiedig â pheccynau gofal. Mae hyn yn cynnwys rhoi datrysiad digonol safonol ar waith i ategu cipio gwybodaeth yn effeithiol ar sail genedlaethol.	A
34	Sicrhau bod modd rhoi polisi cynllunio swyddi ar waith yn effeithiol, i gynnwys sicrhau bod gan > 90% o'r holl Feddygon Ymgynghorol gynllun swydd yn ei le bob amser erbyn 30 Medi 2025.	A
35	Cyflawni lleihad parhaus a chyson pellach o ran gwariant ar asiantaethau, gyda tharged o leihad o 30% yn 2025/26 o gymharu â'r alldro yn 2024/25, a sicrhau nad oes unrhyw variant oddi ar y contract.	A
36	Rhoi'r camau gweithredu a amlinellir yn Fframwaith Cyflog Amrywiol a Rheoli Asiantaethau Cylchlythyr Iechyd Cymru ar waith yn llawn	A
37	Sicrhau lleihad mewn gwariant ar asiantaethau ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, staff Gweinyddol a Chlercyyddol, a staff Ystadau ac Ategiol i sero erbyn 30 Medi 2025.	A
38	Sicrhau lleihad mewn absenoldeb staff yn 2025/26 o gymharu â 2024/25, trwy uchafu cydymffurfiaeth â gofynion polisiâu cytunedig presenoldeb yn y gwaith a chadw at lefelau gwasanaeth gofynnol Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan.	A

2.0 Gwella Mynediad i bawb

Meysydd a gwmpesir:

2.1 Gofal wedi'i gynllunio, canser a gweithgarwch diagnostig

2.2 Gofal brys a gofal argyfwng, gan gynnwys oedi mewn llwybrau gofal

2.3 Iechyd meddwl

2.4 Ansawdd a diogelwch, profiad cleifion ac adborth

Y Cyd-destun

Y maes gwella mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd Iechyd yn y tymor byr, yw mynediad amserol at wasanaethau. Er bod gwelliannau sylweddol i'w gweld mewn sawl maes ers 2023, dyma'r brif thema a ddaw i'r amlwg mewn adborth gan ddinasyddion. Mae llawer iawn o ddinasyddion yn nodi boddhad sylweddol gyda gwasanaethau ar ôl cael mynediad atynt. Serch hynny, mae amseroldeb a rhwyddineb mynediad at wasanaethau yn flaenoriaethau allweddol wrth wella diogelwch a phrofiad dinasyddion a phrofiad gofal y staff.

Rhwng 5 Ionawr 2025 a heddiw, mae nifer y bobl yn aros dros 156 wythnos i gael cyfeiriad at driniaeth wedi lleihau 79%, ac mae'r rhai yn aros dros 104 wythnos wedi

lleihau 52%. Yn gyffredinol, mae mynediad at ofal cynlluniedig wedi gwella'n sylweddol. Er y byddai'r Bwrdd Iechyd wedi hoffio cynnydd cynt, mae'r lleihad hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol dros gyfnod y flwyddyn. Mae prosesau mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc wedi cael eu hehangu ac fe gynigir gwahanol lwybrau at wasanaethau trwy fodelau gofal newydd.

Pan ailsefydlwyd y Bwrdd Iechyd yn 2023, roedd angen mynd i'r afael â materion sylweddol o ran ansawdd. Cyhoeddwyd nifer uchel iawn o Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) gan Grwneriaid EF drwy gydol 2022 a dechrau 2023. Roedd tair prif thema; gofal brys a gofal mewn argyfwng, safon ac amseroldeb ymchwiliadau; ac argaeledd cofnodion iechyd electronig er mwyn sicrhau gofal mwy diogel i gleifion. Yn ogystal â hynny, roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi uwchgyfeirio dau wasanaeth i lefel 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol'. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae nifer yr Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol wedi lleihau'n sylweddol, ac mae newid sylweddol yn y prosesau ac felly yn ansawdd yr ymchwiliadau. Mae Cofnod Iechyd Electronig newydd ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei gaffael hefyd, ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r achos busnes. O ganlyniad, mae'r ddau wasanaeth a nodwyd fel rhai ag 'angen eu gwella'n sylweddol' wedi cael eu hailasesu a'u hisgyfeirio.

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen cyflymu'r broses o wella mynediad at wasanaethau, ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r dulliau o newid yn gyflym, gan ddefnyddio dysg ac arbenigedd cydweithwyr o rannau eraill o system y GIG a galluogi arweinwyr a rheolwyr lleol i fwrw ymlaen â chynnydd cadarnhaol a sylweddol.

2.1 Gofal wedi'i Gynllunio, Canser a Gweithgarwch Diagnostig

Mae gan y Bwrdd Iechyd 2 raglen waith sy'n cydreddeg. Maent yn ymwneud â gofal wedi'i gynllunio, canser a diagnosteg.

Mae'r **rhaglen gyflawni yn ystod y flwyddyn** yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Targedu gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros yn hir (dros 104 wythnos). Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad a wnaed yn yr IMTP i symud tuag at sefyllfa lle na fydd unrhyw gleifion yn aros dros 104 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2026.
- Targedu gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros am dros 52 wythnos am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf.
- Targedu 4610 o driniaethau cataractau ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Roedd hwn yn ddatblygiad newydd fel rhan o raglen gofal wedi'i gynllunio Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.
- Targedu 60,000 o apwyntiadau cleifion allanol ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Roedd hwn yn ddatblygiad newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

- Targedu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros dros 8 wythnos am brawf diagnostig, gan anelu at sefyllfa lle na fydd unrhyw gleifion yn aros dros 8 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2026.
- Targedu gwelliant o ran y targed canser 62 diwrnod gan symud tuag at y safon genedlaethol o 75%.


Mae'r Bwrdd yn cydnabod y newid sylweddol sydd ei angen i ddarparu arferion modern a theg ar draws y rhanbarth a sefydlwyd Rhaglen Newid Mawr ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio. Mae chwe ffrwd waith yn y Rhaglen:

Rhaglen Newid Mawr Gofal wedi'i gynllunio
Ffrwd waith 1: Rheoli rhestrau aros
Ffrwd waith 2: Cyngor a chanllawiau cyfeirio
Ffrwd waith 3: Trefnu apwyntiadau
Ffrwd waith 4: Effeithiolrwydd cyn ac yn ystod llawdriniaethau
Ffrwd waith 5: Gofal dilynol
Ffrwd waith 6: Cynllunio integredig ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg a chanser

Cynnydd:


A. Targedu gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros yn hir (dros 104 wythnos). Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad a wnaed yn yr IMTP i symud tuag at sefyllfa lle na fydd unrhyw gleifion yn aros dros 104 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd tuag at ddileu arosiadau hir dros 104 wythnos. Fodd bynnag nid yw'r cynnydd yr hyn sydd ei angen i gyrraedd y nod o sicrhau sefyllfa lle nad oes unrhyw glaf yn aros dros 104 wythnos erbyn diwedd y flwyddyn. Cafwyd capasiti ychwanegol sylweddol er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n aros a neilltuwyd buddsoddiad gwerth £34 miliwn o'r gronfa gofal wedi'i gynllunio yn ogystal ag adnoddau ychwanegol a sicrhawyd trwy ail-flaenoriaethu'r ffynonellau ariannu mewnol presennol.



B. Targedu gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros am dros 52 wythnos am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran lleihau nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf. Er bod y sefyllfa wedi aros yn sefydlog hyd at fis Medi (gyda'r un nifer o bobl yn gadael y rhestr ag sy'n ymuno â'r rhestr), bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion o fis Medi 2025 ymlaen. Mae hyn yn dangos sut y defnyddiwyd y cynllun cleifion allanol cyntaf a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth cyllid ychwanegol.



Ar sail y wybodaeth sy'n cael ei dilysu ar hyn o bryd (sydd felly, yn wybodaeth ddrafft ar hyn o bryd), mae nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am eu hapwyntiad allanol cyntaf fel a ganlyn:


- Y sefyllfa ar 25 Awst 2025 = 31,905 o gleifion
- Gwelwyd gostyngiad o 5,432 = 26,473 o gleifion yn aros dros 52 wythnos ar 15 Medi 2025
- Gwelwyd gostyngiad cronus o 10,299 = 21,606 o gleifion yn aros dros 52 wythnos ar 6 Hydref 2025
- Gwelwyd gostyngiad cronus o 15,946 = 15,949 o gleifion yn aros dros 52 wythnos ar 10 Tachwedd 2025.

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 50% yn nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn ystod y 10 wythnos diwethaf.

C. Targedu 4610 o driniaethau cataractau yn rhagor erbyn diwedd mis Mawrth 2026.


Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer 4610 o driniaethau cataract yn rhagor erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Bu rhywfaint o lithriad o ran y cynllun sy'n ymwneud â darparwyr a gomisiynwyd, sydd nawr yn cael ei reoli ac mae cynlluniau lliniaru pellach yn cael eu sefydlu. Darperir y gwasanaeth ychwanegol yn bennaf gan ddarparwyr a gomisiynir y tu hwnt i Ogledd Cymru ac mae rhai problemau wedi codi wrth eu defnyddio. Mae'r cynllun lliniaru yn

ceisio cynyddu'r ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru. Hyd at ddiwedd mis Hydref, cyflawnodd darparwyr a gomisiynwyd 872 o driniaethau ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae'r nifer hwn yn uwch mewn gwirionedd oherwydd bod oedi wrth fewnbynnu canlyniadau'r triniaethau ar system y Bwrdd Iechyd.



D. Targeddu 60,000 o apwyntiadau cleifion allanol yn rhagor erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Roedd hwn yn ddatblygiad newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Mae tua 2500 o apwyntiadau cleifion allanol newydd yn cael eu darparu bob penwythnos fel rhan o'r cynllun cenedlaethol cyntaf i gleifion allanol. Bu gofyn am ymdrech sylweddol ac ehangwyd y trefniadau staffio i gynnig y nifer hyn o apwyntiadau sy'n cyfateb i'r cyfanswm a gynhelir mewn wythnos gyfan. Cadarnhawyd yr elfennau diagnostig gan Lywodraeth Cymru, a chawsant eu hystyried yng ngofynion cyffredinol y cynllun diagnostig. Mae'r gyfradd drosi hyd yn hyn tua 20% sy'n cyfateb i'r angen am 15,000 o brofion diagnostig ychwanegol. Mae cyfraddau'r 'Ni Wnaeth Fynychu' (hyd at 30% mewn rhai arbenigeddau) yn amrywio, ac mae trefniadau i orarchebu apwyntiadau mewn clinigau er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.




E. Targeduo gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros am fwy nag 8 wythnos am brawf diagnostig, gyda'r nod na fydd unrhyw gleifion yn aros am fwy nag 8 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Mae'r targed amser aros diagnostig yn her allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r galw am ddiagnosteg wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac er bod hyn yn gadarnhaol mewn sawl ffordd o ystyried yr angen am ddiagnosis cynharach o ganser, nid yw'r capasiti i ddiwallu'r galw yn ddigonol i gyflawni'r targed 8 wythnos. Cyfeiriwyd adnoddau sylweddol at ddiagnosteg gan gynnwys endosgopi a radioleg, er mwyn cynyddu'r capasiti sydd ar gael.

Mae opsiynau cynaliadwy, hirdymor yn cael eu datblygu. Cymeradwywyd Achos Busnes Endosgopi gan y Gweithredwyr ac fe wnaed cynnydd o ran sefydlu Rhaglen Allweddol ffurfiol ar gyfer ei gyflawni. Bydd hyn yn moderneiddio'r gwasanaeth yn llwyr ac yn ei wneud yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hwy. Gan fod y gwasanaeth hwn wedi'i amlygu'n benodol yn y Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant, rhagwelir y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Uned Endosgopi newydd hefyd yn galluogi gwasanaeth modern sy'n bodloni safonau Achredu JAG.

Mae radioleg, ac yn benodol uwchsain nad yw'n obstetreg ac MRI, yn her allweddol ar gyfer cyflawni yn ystod y flwyddyn, gyda chomisiynu ychwanegol yn digwydd i helpu i gau'r bwlch cynllunio a chyflenwi presennol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026. Bydd trothwyon cyfeirio a phrosesau dilysu sy'n cael eu cefnogi gan gydweithwyr yn GIG Cymru yn cael eu hystyried.

Ar hyn o bryd nid yw'r cynllun cyflawni yn ystod y flwyddyn yn bodloni'r disgwyliad na fydd unrhyw glaf yn aros am fwy nag 8 wythnos, a rhagwelir y bydd rhai (tua 5000) o bobl yn aros yn hwy na'r amser hwn. Mae rhagor o welliannau yn cael eu datblygu er mwyn lleihau'r bwlch perfformiad. Nodir y perfformiad gwirioneddol isod. Mae'r tafiwybr bellach yn cynnwys rhagamcanion o tua 15,000 o achosion diagnostig ychwanegol sy'n deillio o'r fenter cleifion allanol.



F. Targeddu gwelliant yn erbyn y targed canser 62 diwrnod tuag at y safon genedlaethol o 75%.

Yn BIPBC ym mis Medi 2025, cafodd 52.6% o gleifion canser newydd eu trin o fewn y targed h.y. o fewn 62 diwrnod o amheuaeth o ganser. Y safon genedlaethol yw 75%. Mae cyrraedd y safon hon yn cynrychioli her sylweddol i'r GIG yn ehangach, hefyd. Ni chyflawnwyd y targed yng Nghymru, a dim ond nifer fach o Ymddiriedolaethau'r GIG/cyrff ieuchyd sy'n cyrraedd y safon gyfatebol yng ngweddill y DU. Yn PBC, mae'r perfformiad gwirioneddol yn cael ei effeithio gan y gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am fwy na 62 diwrnod. Adlewyrchir hyn gan berfformiad yn yr ystod 50 - 60%, sy'n siomedig. Nodir perfformiad yn ôl prif leoliad y tiwmor isod. Mae'r nifer gwirioneddol o gleifion a gafodd eu trin mewn cromfachau (darperir y nifer a gafodd eu trin yn y targed/cyfanswm y nifer a gafodd eu trin a'r meysydd a dargedwyd, gyda chynlluniau ategol):

Lleoliad y tiwmor	Cyfanswm BIPBC	Sylwadau
Gastroberfeddol uchaf	77% (23/30) ↑	
Croen	73% (67/92) ↑	Maes a dargedwyd – niferoedd uchel iawn o gyfeiriadau, capasiti ychwanegol trwy ddarparuwyd a gomisiynir yn dechrau ddiwedd mis Tachwedd a bydd taflwybrau gweithgarwch yn effeithio'n sylweddol (yn gadarnhaol) ar berfformiad, unwaith y bydd y broblem ôl-groniad wedi'i datrys.
Hematoleg	73% (19/26) ↑	
Yr ysgyfaint	63% (20/32) ↓	
Y colon a'r rhefr	58% (26/45) ↑	Maes a dargedwyd - comisiynu capasiti endosgopi ychwanegol
Gynaecoleg	44% (8/18) ↑	
Y fron	38% (30/80) ↓	Maes a dargedir - ail-alinio capasiti'r clinig i alluogi cyflawni gweld cleifion am y tro cyntaf o fewn 10 diwrnod; llwybr poen yn y fron
Wroleg	32% (34/107) ↓	Maes a dargedir - mynediad i gael biopsi'r prostad
Y pen a'r gwddf	26% (5/19) ↓	Cymeradwywyd recriwtio rhagor o Feddygon Ymgynghorol Canser y Pen a'r Gwddf i ymateb i'r galw ychwanegol yn y maes hwn
Cyfanswm	53% (242/460) ↓	

Mae'r **Rhaglen Newid Mawr Gofal wedi'i Gynllunio** wedi cyflawni elfennau allweddol yn y 9 mis cyntaf, gan ganolbwyntio ar sefydlu dull systematig o ddarparu gwasanaethau ar draws rhanbarth y Bwrdd Iechyd:

Ffrwd waith 1: Bwriedir cyflwyno dull newydd o ddilysu rhestrau aros sydd bellach wedi bod drwy'r cam craffu clinigol a chymeradwyo. Bydd yn systemeiddio dilysu rhestrau aros yn glercyddol ac yn glinigol ac yn defnyddio dulliau awtomeiddio gyda chyfathrebu dwyffordd 'Dilysu Cleifion EBO Sgwrsfot', y cyntaf yng Nghymru i ddatblygu'r dull hwn.

Ffrwd waith 2: Yn dilyn dechrau arafach nag mewn sefydliadau eraill, mae'r gwaith cyngor ac arweiniad ar gyfeirio yn cael ei gyflymu drwy flaenoriaethu a gweithredu Llwybrau Iechyd Cymunedol. Mae'r arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer y gwaith yn gweithio yn y Bwrdd Iechyd ac yn cynorthwyo gyda'r cyfle arwyddocaol hwn. Mae

dulliau blaenoriaethu yn cael eu mabwysiadu i wneud y mwyaf o effaith y llwybrau ar y nifer fwyaf o gleifion ac ar rai o'r llwybrau sy'n wynebu'r mwyaf o heriau.

Ffrwd waith 3: Mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar arferion trefnu apwyntiadau. Mae canoli trefnu apwyntiadau yn allweddol i'r sefydliad er mwyn safoni a phroffesiynoli'r dulliau ledled y Bwrdd lechyd. Rhoddwyd Cam 1 ar waith gyda mwy o hyblygrwydd o ran arferion trefnu apwyntiadau. Fe'i profwyd yn benodol yn y rhaglen o waith gofal wedi'i gynllunio yn ystod y flwyddyn. Bydd Cam 2 yn dilyn o ran dylunio a chyflenwi dros y 12 mis nesaf.

Ffrwd waith 4: Mae'r gwaith cyn ac ar ôl llawdriniaethau yn y sefydliad yn arwyddocaol. Ail-ddyluniwyd y llwybrau asesu cyn-llawdriniaeth yn llwyr o'r hyn a fu'n 3 model gwahanol i un dull cyson ar draws y sefydliad. Erbyn hyn, mae wedi cael ei brofi ac mae'n cyrraedd diwedd y cyfnod dylunio a bydd yn cael ei weithredu cyn bo hir. Mae Holiaduron Sgrinio lechyd yn cael eu rhoi ar waith ac mae'r Bwrdd lechyd yn awyddus iawn i weld y system e-POAC yn cael ei chaffael yn genedlaethol. Byddai hyn yn digideiddio'r broses gan ei gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Ffrwd waith 5: Mae heriau sylweddol o ran apwyntiadau dilynol ac mae mynd i'r afael â hyn yn hanfodol er mwyn ail-gydbwyso capasiti, rhoi cyngor a chymorth mwy amserol a gwella profiad y claf. Mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn canolbwyntio ar 'lanhau' rhestrau aros apwyntiadau dilynol a chael gwared ar gofnodion dyblyg (etifeddiaeth o gael 3 system wahanol i weinyddu cleifion wahanol tan haf 2023). Y cam nesaf fydd cymhwyso dulliau Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) a Sylw yn ôl Symptomau (SOS) yn systematig. Mae rhai arbenigeddau eisoes yn defnyddio'r dulliau hyn yn effeithiol iawn a bydd yr arfer yn cael ei ledaenu a'i raddio'n systematig i arbenigeddau eraill.

Ffrwd waith 6: Mae'r ffrwd waith hon yn ymwneud â chynllunio integredig rhwng gofal wedi'i gynllunio, canser a diagnosteg. Rhaid ystyried y rhain gyda'i gilydd fel ffordd o asesu'r galw'n ddigonol ar y 3 ffrwd a rhoi'r capasiti sydd ei angen ar waith. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu symud yn systematig i ddatrysiadau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy yn hytrach na dibynnu cymaint ar allanoli dros dro. Cynhelir asesiadau fesul gwasanaeth i gynorthwyo'r gwaith cynllunio ar gyfer 2026/27. Mae'n bosibl y bydd rhai partneriaethau strategol â darparwyr allanol yn rhan o'r symudiad tuag at gynaliadwyedd.

2.2 Gofal Brys a Gofal Argyfwng gan gynnwys Oedi mewn Llwybrau Gofal

Mae'r llwybr gofal brys a gofal argyfwng yn un o'r prif faterion i'r Bwrdd lechyd fynd i'r afael â nhw. Yn ei gyfarfod ym mis Medi, cynhaliodd y Bwrdd ymchwiliad manwl i'r maes hwn ac ymdriniodd yn agored â safon annerbyniol y ddarpariaeth, gan ymroi i flaenoriaethu gwelliant tymor byr wrth adeiladu ar gyfer y tymor hwy. Trafodir hyn yng nghyfarfod y Bwrdd ddiwedd mis Tachwedd er mwyn olrhain cynnydd. Mae'r mater craidd yn ymwneud â mynediad amserol ac mae'n fater allweddol o ran

diogelwch a phrofiad cleifion sydd hefyd yn herio morâl a lles staff. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i gydweithio'n gyflym i wneud gwelliannau.


Mae'r **rhaglen gyflawni yn ystod y flwyddyn** ar gyfer gofal Brys a Gofal Argyfwng (UEC) yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Targedu gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros i gael eu trosglwyddo i Adrannau Achosion Brys o Ambiwylans i ddim mwy na 45 munud (Trosglwyddo-45)
- Yr amser canolrifol o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at frysennu gan glinigydd
- Yr amser canolrifol o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at asesiad gan unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau clinigol
- Targedu gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros 4 awr neu fwy i gael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau yn yr Adran Achosion Brys
- Targedu gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach o'r amser cyrraedd hyd at eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Targedu gostyngiad yn nifer y dyddiau cyfan y mae cleifion yn profi Oedi mewn Llwybr Gofal (Oedi wrth Ryddhau o'r Ysbyty)

A. Targedu gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros i gael eu trosglwyddo i Adrannau Brys o'r Ambiwylans i ddim mwy na 45 munud (Trosglwyddo-45)

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried y mater hwn yn un arwyddocaol o ran cydbwysu risg adnoddau gofal iechyd ar draws y llwybr o'r gymuned i leoliadau ysbyty. Mae wedi ymrwymo i wneud cynnydd sylweddol ar drosglwyddo cleifion o fewn 45 munud a hynny fel blaenoriaeth allweddol a chyflym, gan fod y cynnydd ar hyn o bryd yn sylweddol islaw'r disgwyl. Bu rhai arwyddion o symudiad cadarnhaol dros yr wythnosau diwethaf, fodd bynnag nid yw eto'n cael ei gynnal na'i ddatblygu. Bydd y gwelliannau yn y maes hwn yn fwy arwyddocaol ac yn bwysicach, yn cael eu cynnal, pan fydd elfennau eraill y llwybr wedi'u rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys rhyddhau cleifion a llif drwy'r ysbyty, yn ogystal â llwybrau amgen a ffrydio wrth y 'drws ffrynt'. Mae creu lle yn yr adrannau ar gyfer trosglwyddo mwy o gleifion mewn modd mwy amserol, yn allweddol ac mae gwaith ar y gweill i archwilio'r potensial ar gyfer darparu mwy o le priodol.


BCU Total - Showing data for: <45 Min Handovers % Handovers



B. Yr amser canolrifol (munudau) o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at frysbennu gan glinigydd

Gwelir gwelliant yn yr 'amser a gymer i frysbennu' ym mhob un o Adrannau Brys y Bwrdd Iechyd wrth gymharu perfformiad Hydref 2025 â pherfformiad Hydref 2024. Fodd bynnag, nid yw'r safon genedlaethol o frysbennu o fewn 15 munud yn cael ei chyflawni'n gyson, â'r amser brysbennu presennol yn 20 munud. Mae'r amser a gymer i frysbennu yn newid yn ôl yr amser yn ystod y dydd a faint o bobl sy'n mynychu sy'n golygu bod angen lefel uchel o hyblygrwydd o ran staff. Mae sbardun yn bodoli er mwyn adleoli staff ar gyfer brysbennu ychwanegol, ac mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio. Mae'r trothwy ar gyfer y sbardun a'r patrwm staffio sy'n ymwneud â gweithgarwch brysbennu yn cael ei adolygu i alluogi gwella'r safon 15 munud.

Weekly - Median Time To Triage




C. Targedu gostyngiad yn yr amser canolrifol o gyrraedd yr adran achosion brys hyd at gael asesiad gan glinigydd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol i safon o 60 munud

Y safon i glaf gael ei weld yn yr Adran Achosion Brys gan unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau clinigol yw 60 munud neu lai. Tua 35% o gleifion ar draws y tair Adran Achosion Brys yng Ngogledd Cymru sy'n profi hyn ar hyn o bryd. Mae cydberthynas rhwng nifer y cleifion yn yr adran a chyflymder yr asesiad gyda chyfnodau aros hwy ddiwedd y prynhawn a gyda'r nos fel arfer. Mae model y gweithlu yn cael ei ystyried ochr yn ochr â llwybrau cleifion a dewisiadau amgen i'r

Adran Achosion Brys, trwy ffrydio i wasanaethau eraill, gan gynnwys SDEC (Gofal Brys yr Un Diwrnod). Mae cynnig SDEC fel llwybr uniongyrchol i Barafeddygon ac i Feddygon Teulu yn ddatblygiad allweddol a fydd yn cynorthwyo gweithlu'r Adran Achosion Brys, ac yn enwedig yr unigolion sy'n gwneud penderfyniadau clinigol, i sicrhau asesu cleifion yn fwy prydlon a gwella diogelwch a phrofiad cleifion.

Time To Clinician Under 60 Min - Monthly




D. Targedu gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 4 awr i gael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o'r Adran Achosion Brys

Mae hyd yr amser y mae cleifion yn aros i gael eu gweld eu trin a'u rhyddhau o'r Adran Achosion Brys yng Ngogledd Cymru, yn amrywio. Ymhlith y bobl nad ydynt yn cael eu derbyn i wely cleifion mewnol/cyfleuster cyfatebol, mae tua 50% ohonynt yn treulio 4 awr neu lai o amser yn yr Adran Achosion Brys; sy'n golygu bod 50% o gleifion ar gyfartaledd, yno am fwy na 4 awr. Mae hwn yn faes allweddol i'w wella a chaiff ei gefnogi drwy arwain/ffrydio cleifion i lwybrau gofal amgen ac opsiynau gofal eraill gan gynnwys gwasanaethau mân anafiadau a salwch, gwasanaethau cymunedol, a Gofal Brys yr Un Diwrnod lle bo hynny'n briodol.

Ymhlith y cleifion hynny sy'n cael eu derbyn i wely cleifion mewnol, dim ond tua 20 - 40% o gleifion sy'n gadael yr Adran Achosion Brys o fewn 4 awr. Mae cydberthynas uniongyrchol ag argaeledd gwelyau cleifion mewnol yn y prif ysbyty ac fe'i gwelir yn fwy amlwg yn nata'r Adran Achosion Brys dros 12 awr. Mae'r ffocws ar wella llif yn yr ysbytai ac amseroldeb rhyddhau cleifion eraill yn benodol, yn allweddol wrth wella diogelwch a phrofiad cleifion. Mae'r amgylchedd a'r lle sydd ar gael yn effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i alluogi mwy o gleifion i fynd i'r Adran Achosion Brys ac felly

po uchaf yw nifer y cleifion sy'n aros am wely i gleifion mewnol yn yr Adran Achosion Brys, yr hiraf yw'r cyfnod trosglwyddo i bobl sy'n cyrraedd mewn ambiwlans.


4 Hour (ED Only) - Admitted - Daily (Last 30 Days)



E. Targedu gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach, o'r amser cyrraedd hyd at dderbyn, trosglwyddo neu ryddhau.

Y mater mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ddiogelwch a phrofiad cleifion yw llif cleifion sy'n aros am gam nesaf eu gofal drwy'r ysbyty. Rhan ragweithiol o'r gwaith gwella sy'n mynd rhagddo yw'r ffocws ar ryddhau, gan gynnwys rhyddhau yn ystod y dydd a derbyn cleifion newydd i wardiau. Mae cydbwysu'r risg i ddiogelwch, canlyniadau a phrofiad cleifion ar draws y system yn hytrach na chadw'r risg yn yr Adran Achosion Brys yn allweddol.

Over 12 Hours - Weekly (Last 20 Weeks)




F. Targedu gostyngiad yn nifer y dyddiau cyfan y mae cleifion yn profi Oedi mewn Llwybr Gofal (Oedi wrth Ryddhau)

Mae nifer y cleifion sy'n profi oedi yn eu llwybr gofal (gan gynnwys gadael yr ysbyty) yn lleihau er nad yw'r gostyngiad yn sylweddol ar hyn o bryd. Mae hwn yn faes hanfodol i'w wella o ystyried ei fod yn effeithio ar ddiogelwch, canlyniadau a phrofiad cleifion mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, mae cleifion sydd wedi aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig amhriodol yn profi niwed ar ffurf risg o ddadgyflyru a haint a

ddaliwyd wrth gael gofal iechyd, ac i'r cleifion hynny sydd angen arhosiad mewnol yn yr ysbyty, maent yn profi oedi hir yn yr Adran Achosion Brys ac yn y gymuned lle nad oes ambiwlansys ar gael mor rhwydd.

Y GIG a phartneriaid yr Awdurdodau Lleol sy'n bennaf gyfrifol am y camau gweithredu sydd eu hangen i wella'r sefyllfa i gleifion. Mae mynediad amserol at wasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn fater allweddol, yn ogystal â materion rhwng ysbytai megis aros am asesiad neu drosglwyddo i ysbyty arall (gan gynnwys ysbytai cymunedol). Bydd y ffocws ar ryddhau cleifion ddechrau mis Rhagfyr cyn uchafbwynt y gaeaf yn gysylltiedig â gwelliannau mewn diogelwch, canlyniad a phrofiad. Mae'r buddsoddiad ychwanegol o £30 miliwn mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru yn allweddol i alluogi lleihau'r risg i gleifion ar draws y llwybr gofal yn ystod cyfnod y gaeaf hwn.



2.3 Iechyd Meddwl

Iechyd Meddwl Oedolion

Mae mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r mesurau perfformiad mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y Mesur Iechyd Meddwl. Serch hynny, mae llwybrau mynediad eraill fel y Gwasanaeth 111 Pwyso 2 bellach yn darparu mynediad cyffredinol 24 awr i bobl a gweithwyr proffesiynol at ofal iechyd meddwl arbenigol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i roi ar waith 24 awr y dydd yn llwyddiannus yng Ngogledd Cymru ac mae'n ategu'r llinellau cymorth a gynhelir gan linellau ffôn PBC megis DAN 24/7 (gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol).

O ran mynediad drwy'r gwasanaethau cymunedol (Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol) bu gwelliant yn y safon asesu gychwynnol ac mae'n ymddangos y bydd hyn yn cael ei gynnal yn y dyfodol, er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau i'r gwasanaeth. Mae hyn yn bodloni'r meini prawf isgyfeirio ar gyfer mesurau arbennig lefel 5.


Mae canlyniadau perfformiad Rhan 2 yn parhau i fod islaw'r safon genedlaethol gyfredol. Trefnwyd gweithdy cyd-ddylunio i gyfrannu at ail-ddylunio gwasanaethau a llywio'r broses o'u hailgynllunio.



CAMHS


Mae mynediad at wasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ac mae gwaith sy'n canolbwyntio ar ffyrdd o wella mynediad at ystod eang o gefnogaeth ac ymyrraeth wedi bod ar y gweill ers rhai blynnyddoedd. Mae'r mesurau mynediad a adroddir yn deillio o'r Mesur Iechyd Meddwl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyson yn cyrraedd y safon mynediad o ran asesu o fewn 28 diwrnod, ac mae'r perfformiad yn un cryf drwy gydol y flwyddyn.




Mae mynediad at ymyrraeth o fewn yr amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (28 diwrnod yn dilyn asesiad) wedi bod yn fwy heriol i'r Bwrdd Iechyd ei gyflawni. Serch hynny, dros y misoedd diwethaf, mae'r camau gweithredu a roddwyd ar waith

wedi arwain at berfformiad gwell ac mae hyn o fudd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n ymddangos y bydd y trywydd ar gyfer gweddill y flwyddyn yn gweld gwelliant parhaus tuag at gyflawni'r safon 80%.



Dylai fod gan bob plentyn ac unigolyn ifanc Gynllun Gofal a Thriniaeth pan fo'n derbyn gwasanaethau gofal eilaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r safon o 90% yn gyson wrth gydymffurfio â'r gofyniad hwn.



Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau

Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd 8 gwasanaeth clinigol sydd wedi'u dynodi'n 'Wasanaethau sy'n Peri Pryder' gan Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir ym manylion yr adroddiad. Y rhain yw gwasanaethau Oncoleg, Plastigau, Orthodonteg, Orthopedig, Wroleg, Fasgwlaidd, Offthalmoleg a Dermatoleg.

Mae'r craffu cenedlaethol yn parhau drwy gyfarfodydd cyswllt sydd bellach yn cael eu cynnal bob chwarter, gyda 4 arbenigedd yn cael eu hadolygu bob tro. Caiff cyflwyniadau eu harwain gan y gwasanaeth drwy arweinwyr gweithredol a chlinigol gyda chefnogaeth gan arweinwyr gweithredol. Gwelir cynnydd ar draws yr holl wasanaethau er bod graddfa'r gwelliannau'n amrywio. Ystyrir bod Plastigau ac Oncoleg wedi gwneud y mwyaf o gynnydd o'u cymharu â'r meini prawf ar gyfer isgyfeirio, ac maent erbyn hyn yn cael eu hystyried ar gyfer eu hisgyfeirio. Dylid nodi os cyflawnir y canlyniad hwn na fydd y gwasanaethau hyn yn symud i lawr i Lefel 4 ond y byddant yn cael eu hystyried yn addas i'w tynnu o'r categori Mesurau

Arbennig. Bydd gwaith a goruchwyliaeth yn parhau o dan faner y Fframwaith Perfformiad Integredig.

Mae orthodonteg yn parhau i fod ymhlith y meysydd mwyaf heriol gyda heriau recriwtio sylweddol o fewn y farchnad genedlaethol sydd yr un mor heriol.

Mae'r Rhwydweithiau Gweithredu Clinigol yn parhau i gynnig eu harbenigedd ac mae nifer o weithdai amlbroffesiynol wedi'u cynnal dros y misoedd diwethaf. Mae'r rhain yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag ymgysylltiad clinigol, cychwyn ar drafodaethau adeiladol ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain yn y tymor byr, gan gadw'r rhagolygon tymor hwy mewn golwg drwy gam 2 y Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

2.4 Ansawdd a diogelwch, profiad cleifion ac adborth

System Rheoli Ansawdd (QMS)

Cafodd System Rheoli Ansawdd newydd ei chymeradwyo gan y Bwrdd yn 2024 yn sgil gwaith a gyflawnwyd gyda'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn 2023 ac adroddiadau yn deillio o Adolygiadau Annibynnol. Y 4 rhan allweddol yn y system rheoli ansawdd yw Cynllunio Ansawdd, Gwella Ansawdd, Rheoli Ansawdd a Sicrhau Ansawdd. Mae pob rhan yn allweddol wrth reoli ar gyfer ansawdd. Dylent fod yn gydgysylltiedig ac yn canolbwyntio ar anghenion y boblogaeth a sut mae rheoli systemau yn gwasanaethu'r anghenion hynny'n well. Caiff y system ei rhoi ar waith fesul cam ar draws y Bwrdd Iechyd.

Betsi Cadwaladr UHB Quality Management System Framework



Atgyfnerthir System Rheoli Ansawdd (QMS) y Bwrdd Iechyd gan fentrau sy'n ymgorffori ansawdd, diogelwch a gwelliant mewn gofal dyddiol. Mae profiad y claf yn ganolog, ac mae Fframwaith Profiad y Bobl a llwyfannau fel Civica sy'n galluogi adborth amser real yn ategu hyn. Mae ffocws newydd ar Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl yn cynnwys cydgynhyrchu strategaeth ymgysylltu newydd. Mae gwelliannau sylweddol yn y ffordd y mae cwynion yn cael eu trin wedi cynyddu hygyrchedd ac wedi cyflawni cydymffurfiaeth 100%.

Fel rhan o'r gwaith ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol, mae nifer o arbenigeddau wedi'u nodi fel rhai heriol, gan gynnwys wroleg, fasgwlaidd, offthalmoleg, dermatoleg, orthopedeg, orthodonteg, oncoleg a phlastigau. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael sylw drwy ddull Cyfnod 1 cydlynol, a yrrir gan arweinyddiaeth glinigol, ei gefnogi gan gydweithwyr cenedlaethol, a'i oruchwyllo gan y Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaeth. Mae proses ailddylunio gyfannol ar y gweill, gan gydbwyso anghenion uniongyrchol y gwasanaeth â chynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys asesu'r ddarpariaeth gyfredol, risgiau, anghenion iechyd y boblogaeth, a disgwyliadau cenedlaethol, tra hefyd yn adolygu modelau gweithlu, capasiti, cyllid, a chyfleoedd digidol drwy weithdai aml-broffesiynol.

I gefnogi'r System Rheoli Ansawdd mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu adnodd digidol i asesu aeddfedrwydd system rheoli ansawdd. Cafodd ei gyflwyno yn y Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau ac mae'n cael ei ymestyn i Wasanaethau Clinigol a Mabwysiadwyr Cynnar. Mae'r datblygiadau hyn wedi cryfhau aliniad sefydliadol ac wedi gosod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gryfach o ran gweithredu'r System Rheoli Ansawdd.

Gwasanaeth Cyngor a Chyswilt Cleifion (PALS)

Ym mis Hydref 2025, cynorthwyodd PALS i ddatrys 880 o ymholiadau, derbyniodd 59 eitem o ganmoliaeth a 5 awgrym ar gyfer gwella. Ar gyfartaledd, datrysodd PALS ymholiadau o fewn 5.11 diwrnod gwaith, sy'n berfformiad cadarnhaol o'i gymharu â'r targed o 10 diwrnod gwaith. Mae'r themâu allweddol a nodwyd yn yr ymholiadau PALS yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys apwyntiadau, cyfathrebu a thriniaeth glinigol ac asesiadau.

Adborth Cleifion

Ym mis Hydref 2025, derbyniwyd 7048 o ymatebion i Arolwg Profiad Pobl Cymru Gyfan (PES) gyda 85% o'r ymatebion yn sgorio eu profiad cyffredinol yn gadarnhaol (Da iawn neu Dda) gyda 66.41% o'r ymatebion yn sgorio eu profiad fel "Da iawn". Adroddwyd lefelau boddhad uchel gyda 84.91% o'r ymatebwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch "bob amser", a 90.37% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod "bob amser" yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith gan gynnwys; Cymraeg, Saesneg, Wrddw ac iaith Arwyddion Prydain. Adroddwyd adborth cadarnhaol cyffredinol (65%) ynghylch hyd yr amser y mae cleifion yn aros gyda 40% o'r ymatebwyr yn aros "ychydig, ond yn llawer cyflymach nag y disgwyliwyd" a 25% o'r ymatebwyr yn disgrifio eu harhosiad fel "tua'r lefel iawn"; sy'n golygu bod 35% o bobl yn teimlo nad oedd eu hamser aros yn gadarnhaol.

Profiad cleifion

Ceir enghreifftiau o welliannau a wnaed i wasanaethau o ganlyniad i adborth cleifion a gofalwyr yn Chwarter 2, 2025 – 2026 isod:

- Amlygodd adborth gan gleifion a staff fod angen gwelliannau i'r amgylchedd ar Ward Gogarth yn Ysbyty Gwynedd. Tynnwyd podiau i greu amgylchedd gwell ar gyfer triniaeth a'r ardal aros, gan greu mwy o breifatrwydd i gleifion.

- Yn dilyn adborth cleifion ar Ward Padarn, Ysbyty Eryri, cafwyd bwydlen newydd yn yr ysbyty. Mae cleifion yn canmol y fwydlen yn enwedig yr opsiynau brecwast diwygiedig.
- Yn Ysbyty Penrhos Stanley, ac yn seiliedig ar adborth cleifion ynghylch mynediad at wasanaethau ac amseroedd aros, cyflwynwyd system apwyntiadau clinig gwaed newydd, lle gall cleifion archebu slot amser i osgoi oedi.
- Yn dilyn adborth negyddol ynghylch amgylchedd yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd wrth aros i gael eu gweld, mae taflenni wedi'u datblygu ar gyfer y rhai ag anghenion ychwanegol, mewn cydweithrediad ag Autism UK, i esbonio beth i'w ddisgwyl wrth gael triniaeth yn yr adran.
- Yn Ysbyty Maelor Wrecsam maent wedi gweithredu Cynorthwyydd Lles Adran Achosion Brys i gefnogi cyfathrebu â chleifion a phrofiad cleifion.
- Er mwyn helpu gwella cyfranogiad cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal, datblygwyd adnodd i gefnogi staff i gael sgysiau gyda chleifion am 'yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw'.
- Mae Gwasanaethau Menywod wedi ail-lansio fforymau ar-lein Lleisiau Mamolaeth ac wedi ehangu Cymunedau Croeso i Fwydo ar y Fron ledled Gogledd Cymru. Mae gan fenywod a phobl ifanc lwybrau newydd i ddylanwadu ar ddylunio gwasanaethau, mae teuluoedd yn fwy cysylltiedig â staff a chymheiriaid, ac mae cymunedau'n gweld amgylcheddau mwy cynhwysol a chefnogol.
- Er mwyn gwella Gwasanaethau Canser, mynediad cleifion at gefnogaeth seicolegol leol a gwybodaeth, agorodd Canolfan Maggie's ym mis Medi 2025. Mae wedi'i lleoli ar safle Ysbyty Glan Clwyd ac mae'n gwasanaethu'r boblogaeth ledled Gogledd Cymru.
- Helpodd adborth cleifion i lywio'r model 3 haen newydd o ymgysylltu â Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru a chyd-ddylunio gwybodaeth ar gyfer gwefan BIPBC.
- Yn dilyn adborth ynghylch diffyg cefnogaeth gan gymheiriaid i gleifion sy'n derbyn triniaeth cancer, mae Gwasanaethau Canser wedi sefydlu'r Grŵp Cymorth Canser y Pen a Gwddf, Grŵp Cymorth Canser Wroleg a Grŵp Cymorth Canser y Fron. Bydd y grwpiau hyn yn galluogi cleifion i gyfarfod mewn amgylchedd hamddenol i annog cefnogaeth gan gymheiriaid a gwneud cysylltiadau newydd.
- Er mwyn sicrhau bod adborth yn cael ei driongli i lywio dysgu, mae'r Tîm Profiad Cleifion wedi mynychu Gweithdai Synthesis y Bwrdd Iechyd a'r rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth i weithio gydag Arweinwyr Newid Diwylliant i gynnal dadansoddiad thematig o Civica a data adborth arall, i weld sut mae hyn yn cydberthyn â phrofiadau staff.
- Yn dilyn adborth am ofal diwedd oes a phrofedigaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithredu model SWAN a fydd yn hwyluso darparu gofal

personol rhagorol a chyfannol, gan sicrhau cyfathrebu gwell â theuluoedd a chleifion.

Mae'r themâu allweddol sy'n codi ym mhrofiad cleifion yn adlewyrchu'r problemau mynediad a amlinellwyd yn gynharach yn y pecyn hwn. Er enghraifft, mae tua 50% o gwynion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau, o ran amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a'r profiad o ofal brys a gofal argyfwng. Mae'r Bwrdd yn ystyried Adroddiad Profiad Dinasyddion yn rheolaidd, gan fyfyrion ar y themâu allweddol ac yn bwysicach, y prif gamau gweithredu ar gyfer gwella.

Gwelliannau Diogelwch Cleifion

Cwmpïadau Cleifion - Rhoddwyd mentrau i leihau cwmpïadau cleifion mewnol ar waith. Dengys adolygiadau bod gostyngiadau ystadegol arwyddocaol yn nifer cyffredinol y cwmpïadau (gwerth-p = 0.009897), cwmpïadau'n achosi niwed cymedrol neu fwy difrifol fel yr adroddwyd (gwerth-p = 0.0002), a chwmpïadau'n achosi niwed cymedrol neu fwy difrifol fel y'u cadarnhawyd ar ôl ymchwiliad (gwerth-p = 0.0001). Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod y mentrau wedi cael effaith gadarnhaol go iawn ar leihau cwmpïadau cleifion a gwella diogelwch cleifion.

Gweinyddu ocsigen drwy silindrau cludadwy - Mae gwaith gwella i gefnogi trosglwyddo cleifion sydd ar ocsigen yn ddiogel wedi'i weithredu. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar y cofnod staff electronig i staff clinigol a defnyddio awgrymiadau a rhestrau gwirio.

Digwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol (NRI) - Ar hyn o bryd, y Bwrdd lechyd sydd â'r perfformiad gorau yng Nghymru o ran cau NRI yn brydlon. Dim ond 20% o achosion sy'n parhau ar agor y tu hwnt i 90 diwrnod. 42% yw canran y Bwrdd lechyd sy'n perfformio ail orau. Yn ogystal â hyn, yr amser canolrifol i gwblhau ymchwiliad yn BIPBC yw 77 diwrnod gwaith, sy'n sylweddol is na chanolrif Cymru Gyfan sef 134 diwrnod.

Y Storfa Ddysgu – mae hon yn fenter ddigidol, a ddatblygwyd yn fewnol, i gasglu, dilysu a rhannu dysgu sefydliadol sy'n gwella diogelwch cleifion ac ymarfer clinigol. Gan ganolbwyntio'r cynllun peilot ar Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau, bydd yn lansio storfa fyw, weithredol a fydd yn galluogi staff i gyflwyno dysgu, cael sicrwydd ansawdd lleol, derbyn adolygiad arbenigol gan arbenigwyr pwnc (SME), a chyhoeddi mewnwelediadau dilys trwy SharePoint. Y bwriad yw ei gyflwyno'n ehangach ar draws y sefydliad yn 2026.

3.0 Paratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol

Meysydd a gwmpesir:

3.1 Gwella gwasanaethau iechyd menywod, mamolaeth ac iechyd meddwl.

3.2 Atal afiechyd yn fwy effeithiol.

3.3 Rhoi mwy o wasanaethau yn y gymuned.

3.4 Gwireddu'r potensial ar gyfer digidol ac arloesedd.

3.1 Gwella Gwasanaethau Iechyd Menywod, Mamolaeth ac Iechyd Meddwl

Cynllun Iechyd Menywod

Ymrwymodd y Bwrdd Iechyd yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i ddatblygu ei ddull o wella iechyd menywod drwy weithredu'r Cynllun Iechyd Menywod. Yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu Hwb Iechyd Menywod pwrpasol erbyn mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn ymestyn cyrhaeddiad Gofal Sylfaenol trwy rwydwaith o glinigwyr iechyd menywod arbenigol sy'n seiliedig ar glystyrau, gan sicrhau bod gan fenywod fynediad amserol at gymorth arbenigol drwy gydol eu bywyd. Bydd Hwb Braenaru yn cael ei ddatblygu a chafwyd cymorth gan Academi Gofal Sylfaenol BIPBC i'w weithredu. Bydd dull Llwybrau Iechyd Cymunedol yn cael ei ddefnyddio fel platfform ar gyfer llwybrau Hwb safonol. Mae cydweithio agos â rhanddeiliaid allweddol ar draws Gofal Sylfaenol, Gofal Eilaidd, y Trydydd Sector, a chynrychiolwyr cleifion.

Gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol

Bydd gweithredu'r Rhaglen Mamolaeth Ddigidol yn moderneiddio cofnodion mamolaeth ac yn gwella diogelwch clinigol ar draws pob safle. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system BadgerNet i gefnogi gofal cyson o ansawdd uchel, gwella rhannu gwybodaeth, a galluogi gwneud penderfyniadau mwy diogel. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth sy'n cael eu galluogi'n ddigidol ac mae wedi'i threfnu i fynd yn fyw ym mis Mawrth 2026. Mae'r Gwasanaeth Amenedigol yn meincnodi ei safle'n rheolaidd yn erbyn adolygiadau Cymru a'r DU i nodi meysydd o arfer da a phenderfynu ar gamau gweithredu lleol angenrheidiol. Mae'r dull hwn yn sicrhau aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol ac yn cefnogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau. Mae gweithgareddau meincnodi allweddol yn cynnwys:

- **Datganiad Ansawdd Mamolaeth Newyddenedigol** - Mae asesiad sylfaenol o ddarpariaeth gwasanaeth lleol wedi'i gwblhau yn erbyn y saith cam gweithredu allweddol a'r 33 o briodoleddau ansawdd a amlinellir yn y Datganiad Ansawdd Mamolaeth Newyddenedigol. Mae'r Gwasanaeth yn aros am gyhoeddi manyleb y gwasanaeth cenedlaethol er mwyn llywio cynllunio gwasanaethau lleol mwy manwl.

- **Rhaglen Cymorth Diogelwch Newyddenedigol Mamolaeth** – parhau i ddatblygu'r 134 o flaenoriaethau i'w gweithredu, gan ganolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethau Cyfnod 2 i'w cwblhau erbyn mis Mawrth 2026.
- **Strategaeth Gweithlu Amenedigol AaGIC** - asesiad sylfaenol wedi'i gwblhau i werthuso capasiti'r gweithlu presennol a llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.
- **Strategaeth Ymgysylltu Amenedigol** - cwblhawyd yr asesiad. Rhaid cyflwyno PES yn lleol erbyn diwedd mis Hydref.
- **Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Amenedigol Bae Abertawe Mai 2025** - Cynhaliwyd asesiad sylfaenol i gadarnhau'r camau a gymerwyd hyd yma a nodi meysydd pellach ar gyfer eu gwella'n lleol.
- **Adroddiad Llais** - cwblhawyd asesiad sylfaenol. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cyfarfod â Chyfarwyddwr Rhanbarthol Llais, sydd wedi cadarnhau ei gefnogaeth i nodi cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltu.

Iechyd Meddwl

Mae'r wybodaeth isod yn cynnig trosolwg o'r gwaith sydd wedi digwydd ac sy'n mynd rhagddo i wella iechyd meddwl a lles meddyliol y boblogaeth a gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn benodol. Bydd y Bwrdd yn cael adroddiad penodol ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl ddwywaith y flwyddyn ac mae wedi ymrwymo i bennu bod y maes hwn yn flaenoriaeth allweddol i'w ddatblygu. Mae datblygiadau allweddol ar y gweill gan gynnwys caffael Cofnod Cleifion Electronig ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl; mae hynny'n ymateb i'r pryderon ynghylch diogelwch a phrofiad cleifion a'r cymorth sydd ar gael i staff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau clinigol. Roedd hwn yn faes a grybwyllwyd hefyd gan Grwneriaid EM yn yr Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol yn 2022 a 2023 yn benodol.

Adolygiad gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion o adolygiadau iechyd meddwl

Mae'r sefydliad wedi camu ymlaen o ran ei ymrwymiad a'i allu i weithio gyda phobl sydd wedi cael profiadau o wasanaethau ac mae'n parhau i gyflawni yn unol â gofynion y cynllun i Ymateb i Adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Wrth wneud hynny, mae'n datblygu ac yn gwreiddio camau gweithredu ar gyflymder cyson, ceir tystiolaeth eglur i gadarnhau bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau, ynghyd â ffocws ar symud ymlaen ar y cyd â chleifion, defnyddwyr a theuluoedd..

Mae'r Grŵp Cynghori Arbenigol (GCA) a staff ymgysylltu â theuluoedd hefyd wedi cyd-lunio protocol yn ymwneud â'r dull o weithio, ac mae Pennaeth Profiad Cleifion y Bwrdd Iechyd wedi arwain y gwaith hwn. Mae staff Llais hefyd wedi cynnig cymorth allweddol i aelodau'r GCA, a gwerthfawrogir y cymorth pwysig hwnnw yn fawr. Cyflwynwyd adroddiad ynghylch cynnydd yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf. Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnig trosolwg o'r gwaith a wnaed ledled y sefydliad ac yn benodol yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan gynnwys cynnydd ynghylch camau penodol yn deillio o Adolygiad Coleg Brenhinol y Seicolegwyr o Wasanaethau Gwahoddedig.

Mae'r Grŵp Cyngori Arbenigol bellach wedi cwblhau ei Raglen Waith. Mae Cyngorydd Arbennig y Bwrdd Iechyd wrthi'n ysgrifennu adroddiad a chaiff y Bwrdd yr adroddiad hwnnw ym mis Ionawr 2026 fel rhan o adroddiad strategol cyffredinol am y gwasanaethau iechyd meddwl. Y ffocws allweddol cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn yw sicrhau bod gan holl dimau'r rhaglen gofnod cyfredol o'r holl gamau gwella, eu statws presennol a'u cynnydd.

Cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu/argymhellion

- Mae 56 o'r 80 o gamau gwella wedi'u datblygu'n ddigonol i alluogi cangen llywodraethu'r Bwrdd Iechyd i dderbyn ac ystyried tystiolaeth o gynnydd.
- Ystyriwyd 27 o gamau gwella ynghyd â chyflwyniadau cysylltiedig gan Dimau'r Bwrdd Iechyd yng nghyfarfod y Grŵp Cyngori Arbenigol.
- Mae Grwpiau Cyflawni Camau Gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd tystiolaeth i gadarnhau camau gwella unigol wedi'i chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025.

Y Camau Nesaf

- Parhau i gyflawni yn unol â gofynion y Cynllun Ymateb ar y cyd â chleifion, defnyddwyr a theuluoedd sydd oll wedi gwneud cyfraniad allweddol, datblygu ac ymgorffori camau gweithredu ar gyflymder cyson, â thystiolaeth eglur i gadarnhau bod camau gweithredu wedi'u cwblhau.
- Bydd grŵp newydd Goruchwylio a Datblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a gadeirir gan y Prif Weithredwr, yn goruchwylio gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo i ymateb i Adolygiad y Coleg Brenhinol o Wasanaethau Gwahoddedig a datblygiadau eraill sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Nifer y swyddi parhaol presennol a champau gweithredu i leihau nifer y swyddi gwag.

- Cwblhau proses recriwtio lwyddiannus i lenwi rôl y Cyfarwyddwr Nyrsio (bydd deilydd y swydd yn cychwyn ym mis Tachwedd 2025),
- Mae cynnydd yn parhau o ran penodi staff parhaol i lenwi rolau eraill yn yr Uwch Dîm Arwain a rolau nyrsys cofrestredig.
- Mabwysiadwyd dull seiliedig ar ardaloedd lleol i ymdrin â'r gwaith dadansoddi a llunio cynlluniau gweithredu dilynol yn ymwneud â'r arolwg staff.
- Mae naw Arweinydd Newid Diwylliant yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant ac arweinyddiaeth dosturiol ar draws yr uwch adran ac yn unol â chyfeiriad y sefydliad.

Ansawdd a Diogelwch - Digwyddiadau, pryderon a chwynion

- Caewyd y ganran uchaf o gwynion o fewn 30 diwrnod gwaith yng Nghymru, gan flaenoriaethu ymatebolrwydd yn sylweddol iawn. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bellach yn cadarnhau nifer lai o gwynion yn erbyn y Bwrdd Iechyd, sy'n awgrymu bod ansawdd yr ymatebion yn gwella.

- 22 diwrnod gwaith yw'r amser cyfartalog ar gyfer cwblhau'r ymateb i gwynion a'u cau, ac mae hynny'n amlygu gwell gafael ar y sefyllfa a rheolaeth well. Mae'r gwasanaeth yn cynnal ei gydymffurfiaeth ag amserlenni Gweithio i Wella (PTR) ar y cyfan. Pan nodir gwyriadau byr oddi wrth gydymffurfiaeth, bydd hynny'n unol â gofynion yn ymwneud â chwynion cymhleth iawn sy'n gofyn y bydd angen cyfraniadau yn eu cylch gan wasanaethau eraill yn y Bwrdd Iechyd.
- Trafodir digwyddiadau a adroddir trwy Datix yng nghyfarfodydd wythnosol lleol Panel Gweithredol Cwynion Integredig (ICOP) yr Uwch Dimau Arwain. Caiff digwyddiadau cymedrol ac uwch eu hadolygu yng nghyfarfodydd dyddiol Hwb Pryderon Integredig y Bwrdd Iechyd er mwyn pennu'r math o adolygiad/ymchwiliad. Mae cydymffurfiaeth yr Uwch Adran â gofynion yn ymwneud â Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol (NRIs) wedi gwella'n sylweddol ac mae'r Uwch Adran bron iawn wedi cwblhau'r broses i gymeradwyo 1 NRI hwyr yn derfynol a'i gau.

Trosolwg o heriau yn ymwneud â chlymu rhwymynnau a chatau gweithredu i leiafu'r risg

Mae llawer iawn o waith wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ynghylch yr amgylchedd gofal ac ymarfer clinigol er mwyn ceisio cadw cleifion yn ddiogel. Dysgwyd gwersi allweddol yn sgil digwyddiadau trasig ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymrwymo i sicrhau rhagor o welliannau.

Mae proses gadarn ar waith i flaenoriaethu gwaith Cyfalaf, yn seiliedig ar asesiadau o risgiau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu cynnydd tuag at gyflawni mewn ymateb i adroddiadau gan arbenigwyr ac mae anghenion wedi'u nodi ar sail asesiad o risgiau er mwyn llunio rhestr bendant o waith (cyfalaf a refeniw) i leihau nifer y mannau clymu rhwymynnau, contractau cynnal a chadw a mân waith. Clustnodwyd dyraniad cyfalaf dewisol gwerth £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2024/25 a 2025/26 i ymgymryd â gwaith i leihau nifer y mannau clymu rhwymynnau. Sicrhawyd Cyllid Ystadau wedi'i dargedu gwerth £4.12 miliwn dros gyfnod o 2 flynedd, a defnyddir y rhan helaeth o'r cyllid hwnnw i ymgymryd â gwaith i leihau nifer y mannau clymu rhwymynnau. Bydd cyfanswm y gwariant ar waith lleihau nifer y mannau clymu rhwymynnau yn £1.56m fwy neu lai yn ystod 2024/25.

Mae hyfforddiant wedi'i flaenoriaethu drwy'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fannau Clymu Rhwymynnau - roedd 338 o aelodau staff yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cael yr hyfforddiant erbyn 30 Gorffennaf 2025. Cafodd y weithdrefn ynghylch torri rhwymynnau ei diweddarau ym mis Awst 2025 ac mae camau i fonitro hyfforddiant ynghylch torri rhwymynnau ar waith (roedd 494 o aelodau staff yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cael yr hyfforddiant erbyn 4 Medi 2025). Mae cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd wedi arwain gwaith i ddatblygu deunyddiau Cymru gyfan yn ymwneud ag asesu mannau clymau rhwymynnau a hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o fannau clymu rhwymynnau.

Adolygiadau tair rhan blynyddol ynghylch asesiadau o fannau clymu rhwymynnau - mae'r gyfradd cwblhau yn 89% ar hyn o bryd. Caiff pob achos o glymu rhwymynnau ei fonitro yn ystod cyfarfodydd i drafod Lleihau Nifer y Mannau Clymu Rhwymynnau a Rheoli Risgiau.

Ymateb y Bwrdd Iechyd i Hysbysiad Tramgwydd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Yn dilyn y ddau Hysbysiad Tramgwydd (NoC) gan yr HSE a ddyroddwyd yn Ebrill a Mai 2025, mae'r cynllun gweithredu a luniwyd ar y cyd â chydweithwyr corfforaethol wedi'i anfon at yr HSE ynghyd â Chanllaw Hyfforddiant a Maes Llafur sydd newydd gael eu datblygu. Ategir hynny gan gynllun cyflawni hyfforddiant i gynnig sicrwydd a dangos bod y gwasanaeth yn bwrw ymlaen yn gyflym i gyflawni'r cynllun gweithredu.

Ailddatblygu Uned Ablett ac amserlen y gwaith

Cafwyd cymeradwyaeth i'r Achos Busnes i fwrw ymlaen â chyllideb ddiwygiedig gwerth £108.1m, gan gadw'r caniatâd dylunio a chynllunio presennol.

Cydweithio â gwasanaethau seiciatrig a diogelwch mewn adrannau achosion brys

Rhwng Mehefin 2023 a Medi 2023, cafwyd tri digwyddiad trychinebus ac un digwyddiad pan wnaeth claf niweidio'i hun. Roedd y pedwar digwyddiad yn gysylltiedig ag ymweliadau ag Adrannau Achosion Brys ac yn ymwneud â Chydweithio â Gwasanaethau Seiciatrig. Wedi hynny, comisiynwyd adroddiad gan y Swyddogion Gweithredol i gynnig trosolwg o'r digwyddiadau yn ymwneud ag Adrannau Gwasanaethau Brys a Chydweithio â'r Gwasanaethau Seiciatrig, a nodwyd tri maes blaenoriaethol: 1. Mireinio brysbenno, 2. Prosesau Cydweithio â'r Gwasanaethau Seiciatrig h.y., asesiadau a dogfennaeth a 3. Llywodraethu cydweithio: Cydweithio rhwng yr Adran Achosion Brys a gwasanaethau seiciatrig a chydweithio rhwng safleoedd a gwasanaethau seiciatrig. Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ac adrodd cadarn ar waith a cheir adroddiadau rheolaidd ynghylch gwelliannau ac mae'r gwaith bellach yn 'fusnes fel arfer'.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol

Nid yw'r Bwrdd wedi cyflawni'r targed yn ymwneud â Rhan 2 y Mesur Iechyd Meddwl ac mae hynny'n faes ffocws penodol i'w wella. Ar 1 Medi, roedd y llwyth achosion yn 4,343 o gleifion. O blith y rhain, nid oedd gan 727 ohonynt gynllun gofal a thriniaethau cofnodedig cyfredol (yn y 12 mis diwethaf). Gwnaed nifer o welliannau gan gynnwys hyfforddiant a dogfennaeth ddiwygiedig, ond mae capasiti yn y timau yn dal yn rhwystr sylweddol rhag sicrhau y caiff pob claf gynllun gofal a thriniaethau. Mae 2 brosiect gweithlu yn cael eu cynnal, sef adolygiad tymor byr o staff nyrsio a chynllun tymor hwy a fydd yn rhan o'r nod cyffredinol i ail-lunio ein gwasanaethau.

Mae'r cyfeiriad cenedlaethol yn llywio gwaith lleol sydd ar y gweill i newid dulliau o gynnig gwasanaethau iechyd meddwl. Drwy adborth gan gleifion a staff ynghyd â buddsoddiad i sefydlu dulliau digidol, mae'r timau'n archwilio opsiynau a chyfleoedd i wella'r dull o gynnig gwasanaethau a'u comisiynu. Bydd hynny'n dylanwadu'n

gadarnhaol ar elfennau gofal sylfaenol (rhan 1) a gofal eilaidd (rhan 2) ein gwasanaethau, yn ogystal â'n hymateb ynghylch gofal mewn argyfwng a bydd hynny'n cyd-fynd â chwe egwyddor arweiniol y Mesur Iechyd Meddwl.

Yn ychwanegol, mae'r cynnydd canlynol wedi'i sicrhau yn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT):

- Protocol Dyrannu Rhestrau Aros yn weithredol ers Mehefin 2022
- Adolygu adnodd SharePoint yr Un Pwynt Asesu a Mynediad (SPOAA)
- Adolygu Polisiâu Gweithredol gan gynnwys polisiâu ynghylch rhestrau aros
- Cwblhau Archwiliadau yn ymwneud â Phrotocol Trosglwyddo Gofal a Diddymu Gorchmynion Gofal
- Sefydlu Ymarferwyr Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol
- Adolygu nifer y staff parhaol gan gynnwys cynlluniau i ail-lunio Model y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Sefydlu cysylltiadau cryf â'r Gwasanaeth 111+2.
- Mwy o sylw i Fonitro Iechyd Corfforol/Hybu Iechyd.
- Trefniadau monitro ar waith ynghylch cydymffurfiaeth â'r Mesur Iechyd Meddwl.

Gwasanaethau Amenedigol - sefydlu'r tîm a lle ar eu cyfer.

Mae'r gwasanaeth wedi'i sefydlu'n llawn (ac eithrio un Ymarferydd Iechyd Corfforol) ac mae gwaith i'w recriwtio yn mynd rhagddo. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu wedi cadarnhau cyllid i ariannu swydd mewngymorth / allgymorth a brysbenno ar gyfer yr Uned Mamau a Babanod.

Uned Mamau a Babanod Seren (Uned Mamau a Babanod cydweithredol ar y cyd â Phartneriaeth Caer a Chilgwri (CWP): Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda, ac ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr uned yn agor ym mis Tachwedd 2025. Mae'r holl swyddi bellach wedi'u llenwi.

Mae lle ar gyfer y Gwasanaeth Amenedigol yng Nghaledfryn yn Ninbych wedi'i gadarnhau, a bydd hynny'n cynorthwyo â'r cais am achrediad PQN CCQI.

Y sefyllfa o ran Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal (OOA)

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi cynnydd yn y galw am welyau Acíwt y Tu Allan i'r Ardal, ac mae'r nifer ar gynnydd ers mis Mehefin 2024. Roedd nifer y Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal (OOA) yn 24 ar 17 Hydref. Roedd hynny'n llai na'r nifer ar ddiwedd Awst 2025 (sef 34) yn sgil camau pendant. Mae 21 o'r rhain yn ymwneud ag Oedi yn achos Llwybrau Gofal (PoCDs) (13 oedolyn ac 8 oedolyn hŷn). Crynhoir y camau a weithredir i fynd i'r afael â'r mater fel a ganlyn:

- Cynnal cyfarfodydd uwchgyfeirio bob pythefnos gyda'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- Prosesau yn ymwneud â gwytnwch y system wedi'u cryfhau i wella llif gwelyau

- Cynhaliwyd cyfarfodydd Cyfarwyddwyr gyda chydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â gweithio ar y cyd â ffocws penodol ar PoCDs.
- Mae Arweinwyr Llif Cleifion wedi'u sefydlu ym mhob un o'r ardaloedd gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar y sefyllfa o ran Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal.
- Datblygwyd Model Argyfwng Gwell i gynorthwyo i atal gwaethygu sy'n gofyn am ofal aciwt, gan symud ymlaen trwy lywodraethu. Mae hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth gofal mewn argyfwng sydd eisoes ar waith.
- Datblygwyd gwerthusiad o opsiynau i ystyried a chwmpasu addasu Ward Gwalchmai yn Uned Hergest at ddibenion gwahanol.

Perfformiad yn unol â Gofynion y Mesur Iechyd Meddwl

Mae'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi canolbwyntio ymdrechion ar gwtogi rhestrau aros, i sicrhau y gellir gweld a chynorthwyo cleifion cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau hyd yr aros ac i ganiatáu gweithredu newidiadau mwy sylweddol a chynaliadwy o ran arferion. Yn yr adroddiad blaenorol, o ran y sefyllfa ym mis Mehefin, nodwyd bod 396 o gleifion yn aros mwy na 28 diwrnod o dan Ran 1a, ac o ran y sefyllfa ar 22 Hydref 2025, roedd y nifer wedi gostwng i 263. O ran Rhan 1b, roedd 351 o gleifion yn aros mwy na 28 diwrnod am yr ymyrraeth gyntaf.

- Rhan 1a: asesiadau (targed o 80%) – cydymffurfiaeth lawn ar 87.8%.
- Rhan 1b: ymyriadau (targed o 80%) - cydymffurfiaeth lawn ar 85%.
- Rhan 2: CTPS (targed o 90%) – islaw lefel cydymffurfiaeth ar 83%.

Cafodd gwaith tymor hwy i ailgynllunio gwasanaethau, i gynorthwyo i sicrhau darpariaeth well, ei lansio mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Medi ac a agorwyd gan ein Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i lechyd a Gwyddorau Iechyd. Yn y gweithdy hwn, daeth staff o sawl disgyblaeth ynghyd i ystyried cyfleoedd a phosibiliadau ar gyfer ailgynllunio a chydymffurfiaeth â thargedau yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Meddyliol. Mae themâu allweddol yn deillio o'r diwrnod yn cael eu hadolygu a bydd rhagor o sesiynau ymgysylltu yn cael eu cynllunio er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer newid yn fanylach.

Perfformiad CAMHS mewn perthynas â'r Mesur Iechyd Meddwl – Sefyllfa Chwarter 2

Sicrhawyd gwelliannau sylweddol o ran perfformiad yn unol â gofynion Mesur Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ac fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnal cydymffurfiaeth gyson â'r gofyniad i gynnal asesiad cychwynnol o fewn 28 diwrnod ar ôl cael cyfeiriad. Mae amseroedd aros i gael ymyriadau yn dilyn asesiad hefyd wedi lleihau'n sylweddol ac mae amseroedd aros yn gwella o fis i fis. Mae cynllun gwella ar waith i sicrhau y byddwn yn cydymffurfio â'r targed 28 diwrnod erbyn diwedd mis Mawrth 2026 ac i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni hynny.

- Rhan 1a: asesiadau – cydymffurfiaeth lawn ar 86% o gymharu â tharged o 80%.

- Rhan 1b: ymyriadau – cydymffurfiaeth o 53% o gymharu â tharged o 80%, sefyllfa sy'n gwella. Rhagwelir 80% erbyn diwedd Chwarter 4.
- Rhan 2: CTPS – cydymffurfiaeth lawn ar 99% o gymharu â tharged o 90%.

Gweithio trwy Bartneriaeth drwy law Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Gogledd Cymru

Mae cynorthwyo â lles meddyliol yn flaenoriaeth allweddol i Is-grŵp Plant y BPRh. Ar y cyd â'r Bwrdd, mae'r Bwrdd wedi ymrwmo i ddatblygu system gydgyssylltiedig ledled Gogledd Cymru sy'n blaenoriaethu cymorth teg ynghylch lles meddyliol babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael cymorth arbenigol ynghylch eu hiechyd meddwl.

Mae Strategaeth Cymorth Cynnar Gogledd Cymru a ddatblygwyd bellach yn cael ei gweithredu ac mae model gwasanaethau newydd i gynnig cymorth cynharach yn cael ei ddatblygu i adeiladu ar system ragweithiol sy'n cael ei llywio gan anghenion sy'n atal anawsterau iechyd meddwl rhag gwaethygu gan sicrhau cymorth amserol cyn gynted â phosibl. Mae'r Strategaeth yn hybu lles meddyliol a gwytnwch ar draws gwasanaethau cyffredinol, gan leihau dibyniaeth ar wasanaethau arbenigol trwy gymorth wedi'i dargedu, cryfhau dulliau cymunedol a chynnig cymorth trwy wasanaethau mewngymorth mewn ysgolion.

Mae ehangu ar ddull mynediad agored ar gyfer cymorth ar yr un diwrnod i ddiwallu anghenion yn gynnar yn flaenoriaeth allweddol ar draws gwasanaethau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chymunedol yn unol â gofynion y Strategaeth Iechyd Meddwl Newydd. Bydd hynny'n cynnwys ehangu mannau diogel y tu allan i ysbytai ledled Gogledd Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n profi argyfyngau. Rydym yn bwriadu lledaenu'r cynllun peilot llwyddiannus.

Gwasanaethau Niwroddatblygiadol (ND) Plant - Sefyllfa Perfformiad Chwarter 2 Rhestrau Aros

Cynllun i fynd i'r afael ag arosiadau sy'n hwy na 3 blynedd drwy ailgynllunio a chomisiynu gwasanaethau i gynorthwyo â'r capasiti i leihau arosiadau â dyraniad cyllid Cynllun Gwella Niwroamrywiaeth LIC i'r Bwrdd Iechyd. Mae Bwrdd yn bwrw ymlaen â thendr i allu dechrau gweithredu erbyn diwedd mis Tachwedd a pharhau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026 yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Goruchwyliaeth gadarn i gynnig sicrwydd ynghylch ansawdd, diogelu a gwerth am arian.

Llwybr Asesu Darbodus Gwasanaethau Iechyd

Mae'r gwaith datblygu ac ymgynghori ynghylch Llwybr diwygiedig wedi'i gwblhau. Mae cynllun ar gyfer gweithredu wedi cychwyn er mwyn safoni'r Llwybr asesu a lleihau amrywiad. Bydd y cynllun hefyd yn anelu at gyflawni o leiaf 30% o arbedion effeithlonrwydd trwy drawsnewid i gynorthwyo i gyflawni targedau o ran gwelliannau o fewn Chwarteri 3 a 4 2025/2026.

Gweithio mewn Partneriaeth

Cynhaliwyd digwyddiad partneriaethau bob oedran a gynlluniwyd gan Fwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at lechyd Meddwl ar 15 Hydref 2025. Diben y digwyddiad oedd dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cyfiawnder, y trydydd sector, a phobl â phrofiad bywyd, i gydweithio a chyd-archwilio ein dull o ymateb gyda'n gilydd i uchelgeisiau Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth hynny gynnig cyfle i gyfateb â'r Rhaglen Strategol Genedlaethol ynghylch Iechyd Meddwl, gan baratoi at newid y system ac ysgogi hynny gan weithredu model gofal mynediad agored hyblyg. Gwahoddwyd partneriaid i ddylanwadu ar, llunio a chyd-ddylunio model Gwasanaethau Iechyd Meddwl y dyfodol ar draws y continwrm cyfan o lythrennedd Iechyd Meddwl hyd at Ofal mewn Argyfwng i oedolion, plant a phobl ifanc.

Daeth nifer dda o randdeiliaid i'r digwyddiad, a bwriedir cynnal sesiwn arall ar ddiwedd y flwyddyn i gynllunio ymhellach ar sail y canfyddiadau hyd yn hyn.

3.2 Atal Salwch yn Fwy Effeithiol

Mae'r IMTP a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd yn cynorthwyo i gyflawni gwelliannau o ran iechyd y boblogaeth trwy ddull integredig yn y Bwrdd Iechyd. Ar y cyd â phartneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rydym yn dechrau datblygu Fframwaith Atal ac Angori i alluogi dull system gyfan yn ymwneud â gwaith atal ac ymyriadau cynnar. Bydd hynny'n cynnwys set graidd o egwyddorion, ffocws ar benderfyniaddion ehangach iechyd (a elwir yn 'genadaethau'), a Siarter yn amlinellu sut y gall sefydliadau mawr sy'n seiliedig ar leoedd yng Ngogledd Cymru optimeiddio eu rôl fel Sefydliadau Angori. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu offerynnau ac adnoddau gwytnwch yn ymwneud ag iechyd a lles emosiynol eu cyrchu drwy'r wefan.

Rhaglenni Brechu 2025/26

Rhaglen Brechu rhag Covid-19 y Gwanwyn - dechreuodd y rhaglen ar 1 Ebrill 2025 a daeth i ben a 30 Mehefin 2025. Llwyddwyd i roi 102,789 o frechiadau ac roedd y gyfradd derbyn yn 57.39% ac roedd y gyfradd DNA yn 27%. Fe wnaeth hynny ragori ar gyfartaledd cenedlaethol Cymru (53.26%).

Rhaglen Brechu rhag Covid-19 - dechreuodd y rhaglen ar 1 Hydref 2025 a daw i ben ar 31 Ionawr 2026. Mae'r rhaglen yn cynnig un dos o'r brechlyn rhag Covid-19 i ddinasyddion cymwys sy'n 75 oed neu'n hŷn a/neu'r sawl yr ystyrir o safbwynt clinigol eu bod yn imiwnoataliedig. Mae Llywodraeth Cymru yn targedu cyfradd derbyn o 75%.

Brechlu rhag y Ffliw - dechreuodd y rhaglen ar 1 Hydref 2025 a daw i ben ar 31 Mawrth 2026. Hyd at 27 Hydref 2025, roedd cyfanswm o 143,365 o frechiadau wedi'u rhoi.

Brechiadau rhag y Ffliw ar gyfer Staff – mae cyfanswm o 26.4% (5,590) o staff y Bwrdd Iechyd wedi cael eu brechu (ar 1 Tachwedd). Mae ein cynlluniau i gynyddu cyfraddau derbyn yn cynnwys cynyddu nifer yr amseroedd apwyntiadau sydd ar gael, nifer y lleoliadau a nifer yr ymweliadau â mannau gwaith allweddol i wella mynediad staff at y brechiadau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu nifer yr hyrwyddwyr Brechu rhag Ffliw ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ymhlith staff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Gofal Sylfaenol i sicrhau y cofnodir gweithgarwch yn ymwneud â staff sy'n cael y brechlyn drwy'r dulliau hyn.

Rhaglen Imiwneiddio Plant Cyn-ysgol - mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnig hyfforddiant wedi'i dargedu i staff gofal iechyd cyn gweithredu newidiadau arfaethedig i'r i'r rhaglen, gan gynnwys diddymu brechiadau rhag HIB/MEN C a diwygio amseroedd brechiadau rhag MEN B a PCV. Gan ymateb i gynnydd yn nifer yr achosion o'r frech goch, cafodd meddygfeydd ble ceir nifer isel o bobl sy'n dewis cael brechiadau rhag MMR gymorth i gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu. Fe wnaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a digwyddiadau yn ystod yr haf hybu ymwybyddiaeth o frechlynnau.

Canran y plant sydd wedi cael yr holl frechiadau gofynnol cyn troi'n 5 oed (pigiad atgyfnerthu cyn-ysgol '4 mewn 1', pigiad atgyfnerthu rhag Hib/MenC ac ail ddos rhag MMR) - mae nyrsys imiwneiddio wrthi'n puro data COVER ac yn cysylltu â meddygfeydd teulu ac Ymwelwyr Iechyd i fynd i'r afael â brechiadau sydd heb eu cwblhau. Cynhaliwyd sesiynau dal i fyny i gael brechiadau HPV ledled pob ardal yn ystod yr haf a chynhaliwyd ymweliadau ychwanegol mewn ymateb i apwyntiadau a fethwyd. Fe wnaeth Timau Imiwneiddio Ysgolion gynyddu gwaith ymgysylltu trwy fynychu nosweithiau rhieni a chydweithio ag ysgolion ble ceir nifer isel sy'n derbyn imiwneiddiadau. Rhannwyd data ynghylch nifer y bobl a gyfranogodd mewn sesiynau hyfforddiant ar y cyd i gynorthwyo â chynllunio wedi'i dargedu a chynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu.

Canran y plant sy'n cael brechiad rhag y Firws Papiloma Dynol (HPV) cyn troi'n 15 oed - Mae brechiadau rhag HPV yn dal i gael eu cynnig i ddisgyblion Blwyddyn 8 mewn ysgolion, a chynhelir sesiynau cwblhau a dal i fyny. Mae camau gweithredu ychwanegol yn cynnwys targedu ardaloedd ble mae nifer isel o bobl yn derbyn brechiadau drwy gyfarfodydd llywodraethwyr a chynnig brechiad rhag MMR a brechiad rhag HPV ar yr un pryd er mwyn mwyaflu'r nifer sy'n cael y brechiadau. Cynhaliwyd sesiynau dal i fyny i gael brechiadau HPV ledled pob ardal yn ystod yr haf a chynhaliwyd ymweliadau ychwanegol mewn ymateb i apwyntiadau a fethwyd.

Diogelu Iechyd ar gyfer grwpiau agored i niwed

Mae'r Gwasanaeth Diogelu Iechyd yn parhau i gynorthwyo sefydliadau partner ym maes diogelu iechyd â'u hymateb i fygythiadau ac anghenion yn ymwneud â diogelu iechyd ledled Gogledd Cymru. Mae'r prif amcanion ar gyfer 2025/26 yn cynnwys:

- Datblygu capasiti yn y Bwrdd Iechyd i baratoi at fygythiadau yn ymwneud â diogelu iechyd ac ymateb iddynt;

- Gwella'r gwasanaethau a gynigir gan y Bwrdd Iechyd er mwyn amddiffyn pobl yng Ngogledd Cymru rhag bygythiadau a pheryglon presennol yn ymwneud â diogelu iechyd, yn ogystal â bygythiadau a pheryglon newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg
- Datblygu dulliau cydweithredol a seiliedig ar dystiolaeth o amddiffyn pobl rhag salwch a'i atal o fewn sectorau a lleoliadau penodol yng Ngogledd Cymru

Mae ymgysylltu sylweddol wedi digwydd â chartrefi gofal preswyl a bydd hynny'n parhau am weddill y flwyddyn.

Amcan Rhaglen y Gwasanaeth Diogelu Iechyd	Prosiect/Maes Blaenoriaeth	Dangosydd (Targed Blynnyddol)	Allbynnau ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill – Mai)	Allbynnau ar gyfer Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi)
Datblygu dulliau cydweithredol a seiliedig ar dystiolaeth o amddiffyn pobl rhag salwch a'i atal o fewn sectorau a lleoliadau penodol yng Ngogledd Cymru	Cynnig cymorth ynghylch atal a rheoli heintiau (IPC) i gartrefi gofal preswyl yng Ngogledd Cymru	95% o gartrefi gofal preswyl sy'n derbyn adolygiad IPC yn cael adolygiad erbyn 31 Mawrth 2026	Cafodd 41 o blith 225 o gartrefi gofal ymyriadau. 18% wedi'u cwblhau.	Mae 148 o blith 222 o gartrefi gofal wedi cael adolygiad IPC 64.2% wedi'u cwblhau.
		Roedd 75% o gartrefi gofal preswyl y nodwyd y dylent gael ymateb dilynol wedi cael ymyriadau dilynol erbyn 31 Mawrth 2026	0% wedi'u cwblhau	Mae 95 o blith 222 o gartrefi gofal wedi cael cyswllt dilynol mewn perthynas ag adolygiad IPC 42.79% wedi'u cwblhau
		40% o gartrefi gofal preswyl wedi'u cynrychioli mewn sesiynau hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr IPC erbyn 31 Mawrth 2026	Mae 45 o blith 225 o gartrefi gofal preswyl wedi'u cynrychioli yn y sesiynau hyfforddiant ar gyfer hyrwyddwyr IPC 20%	Mae 50 o blith 222 o gartrefi gofal wedi cyfranogi yn y sesiynau hyfforddiant ar gyfer hyrwyddwyr IPC 22.52%

Gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu

Ar ddiwedd ail chwarter 25/26, cafodd 1,960 o oedolion sy'n ysmegu eu trin gan Wasanaethau HMQ ac mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cyflawni 2.90% o gymharu â tharged Haen 1 o 5%. Mae'r gyfradd hon yn awgrymu bod ein Gwasanaethau ar y trywydd iawn i gyflawni'r gyfradd darged (5%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae cyfradd y rhai sy'n hunan-adrodd eu bod wedi rhoi'r gorau i ysmegu yn 43.5% ac mae'r gyfradd sydd wedi'i dilysu trwy gyfrwng prawf carbon monocsid yn 21.9%.

Pwysau Iach a Cholli Pwysau

Mae rhaglen y Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach yn ceisio lleihau cyfraddau gorbwysau a gordewdra ymhlith y boblogaeth. Canolbwyntir ar dri maes sy'n flaenoriaeth:

- Mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach
- Bwyta'n Dda a Bod yn Egnïol mewn Ysgolion
- Bwyta'n Dda a Bod yn Egnïol mewn Gweithleoedd

Mae'r Bwrdd Iechyd, ar y cyd â phartneriaid, wedi bod yn cyflawni camau gweithredu sy'n cynorthwyo â hyn, gan gynnwys datblygu Polisi Bwyd Ysgol Gyfan a Chanllaw ynghylch Arferion Gorau mewn perthynas â Bwyd Iach ac Amgylchedd Egnïol. Yn

ystod chwarter cyntaf 25/26, fe wnaeth y Gwasanaeth Rheoli Pwysau gynorthwyo i gyflawni'r canlynol:

- Fe wnaeth 350 o gleifion ddechrau cyfranogi yn rhaglen Bwyta'n Garedig (rhaglen i oedolion ar lefel 2 – BMI dros 30kg)
- Cafodd 100 o gleifion fynediad at raglen Second Nature (rhaglen ddigidol i oedolion ar lefel 2 - ar gyfer Oedolion â BMI yn amrywio o 30 i 40kg)
- Fe wnaeth y gwasanaeth rheoli pwysau yn ystod beichiogrwydd gynorthwyo 43 o gleifion
- Fe wnaeth 31 o gleifion ddechrau cyfranogi yn y rhaglen rheoli pwysau Lefel 3 ar gyfer plant a phobl ifanc
- Fe wnaeth y gwasanaeth rheoli pwysau Lefel 3 i oedolion asesu 55 o gleifion, gan gynnwys 14 o gleifion a gafodd apwyntiadau dilynol wedi llawdriniaeth fariatrig.

Cynllunio Gofodol

Yn ystod 25/26, ymatebodd tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC i 20 cais cynllunio a oedd yn arwyddocaol o ran iechyd y cyhoedd ac un Ymgynghoriad ynghylch Cynllun Datblygu Lleol a dylanwadu arnynt. Roedd y ceisiadau cynllunio yn cynnwys rhai yn ymwneud â gwerthu alcohol, siopau bwyd a goblygiadau datblygiadau o ran iechyd y cyhoedd.

PIPYN

Mae'r Rhaglen Plant a Theuluoedd (a elwir hefyd yn PIPYN) yn rhaglen beilot i hyrwyddo gwobrau iach i blant, cynyddu mynediad at fwydydd iach a theithio llesol. Yng Ngogledd Cymru, mae'r cynllun peilot yn cael ei gynnal ar Ynys Môn ac mae'r canlyniadau'n cynnwys newidiadau i fwydlenni a dulliau darparu gwasanaethau, cydweithio â darparwyr a chontractwyr prydau ysgolion i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, ac addysg a sgiliau maeth i blant a phartneriaid allweddol.

Dull System Gyfan sy'n seiliedig ar le ynghylch Gweithgarwch Corfforol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod o Actif Gogledd Cymru (y bartneriaeth ranbarthol ym meysydd gweithgarwch corfforol a chwaraeon). Mae'r bartneriaeth wedi galluogi'r rhanbarth i fabwysiadu dull system gyfan o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyfraddau gweithgarwch corfforol a phrofi dulliau newydd o weithio drwy'r dull gweithgarwch corfforol sy'n seiliedig ar le. Wrth werthuso, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles, cyfalaf cymdeithasol, a chyfatebiaeth a chydweithio gwella rhwng gwasanaethau.

Atal a rheoli diabetes

Yn y Bwrdd Iechyd, ychydig dros 40% o bobl â diabetes sydd â phob un o'r wyth proses gofal wedi'u cofnodi yng nghofnod claf eu meddyg teulu. Cafwyd perfformiad gwell o'i gymharu â'r un mis yn 2024 mewn 12 o blith 14 ardal clwstwr yn BIPBC. Fodd bynnag, mae hwn yn faes y mae angen ei wella. Mae gwaith yn mynd rhagddo

i wella hygyrchedd, cysondeb, amrywiadau a chywirdeb data ar draws y system gofal sylfaenol, a gallai hynny fod yn cyfrannu at y sefyllfa adroddadwy.

Wrth ddatblygu'r dull ar gyfer Gwasanaethau Diabetes Integredig yn y Gymuned, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi gwerth a heriau a chyfleoedd mewn perthynas â chynaliadwyedd.

- Adolygu amrywiadau o ran rhagnodi a chostau / gwerth rheoli meddyginiaethau diabetes i lywio datblygu llwybrau gofal ar gyfer cleifion sydd â diabetes
- Rydym wedi nodi'r angen am strategaeth ynghylch Plant a Phobl Ifanc sydd â diabetes.
- Cydweithio â rhaglen genedlaethol Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd i gynnal digwyddiad ymgysylltu â chleifion a llunio ar y cyd yng Ngogledd Cymru yn ddiweddarach eleni, a bydd y digwyddiad hwnnw yn llywio gwaith i ddatblygu llwybrau diabetes cylch oes cyfan yn ystod 2026-28
- Datblygu dull llwybr i wella gwasanaethau clinigol i gleifion sydd â Diabetes i gynorthwyo i ddatblygu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol

3.3 Cynnig mwy o wasanaethau yn y gymuned

Fel y nodir yng Nghynllun Cyflawni Blynnyddol y Bwrdd Iechyd 2025/26 a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), ceir ymrwymiad cryf gan y Bwrdd Iechyd i gryfhau gofal sylfaenol a chymunedol ledled Gogledd Cymru ynghyd â bwriad strategol eglur i allu sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol o ansawdd uchel mor agos â phosibl at eu cartref ac na ddefnyddir gwasanaethau ysbytai aciwt oni bydd angen triniaethau a chynghor arbenigol a chynghor arbenigol ar y lefel honno.

Mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd graddol o ran symud gwasanaethau o leoliadau a dulliau darparu gofal eilaidd i wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn fwy effeithiol yn y gymuned. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cadarnhau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd dilynol dan nawdd Bwrdd Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd.

Yn benodol, byddem yn cyfeirio at y gwaith diweddar sydd wedi'i gwblhau mewn perthynas â'r ganolfan iechyd menywod a ddisgrifiwyd eisoes, gwasanaethau awdioleg, offthalmoleg a deintyddol gan drawsnewid gwasanaethau yn sylweddol ym mhob maes (bydd rhagor i'w gyflawni yn y blynnyddoedd sydd i ddod).

Gwasanaethau awdioleg gofal sylfaenol - roedd hwn yn wasanaeth trawsnewidiol a oedd yn sicrhau bod uwch ymarferwyr awdioleg (uwch wyddonwyr gofal iechyd) yn bwynt cyswllt cyntaf i bobl (oedolion a phlant) sy'n profi symptomau cyflyrau'r clyw a thinitws a symptomau penodol sy'n gysylltiedig â'r synnwyr festibwlar. Mae'r gwasanaeth yn llwyddo i ryddhau capasiti meddygon teulu wrth gynyddu mynediad at ofal arbenigol yn agosach at gartrefi cleifion; yn gwella ansawdd cyfeiriadau a anfonir at wasanaethau ENT ac awdioleg trwy ddefnyddio asesiadau diagnostig ac ymgynghoriadau arbenigol; ac yn lleihau'r galw cyffredinol am gyfeiriadau at

wasanaethau eraill trwy gynnig triniaethau ym maes Gofal Sylfaenol. Mae'r gwasanaeth wedi gweld mwy na 75,000 o gleifion hyd yn hyn, ac ar hyn o bryd, bydd yn asesu/trin tua 1,200 o gleifion bob mis. Mae gwasanaethau awdioleg gofal sylfaenol hefyd yn cynnwys gwasanaeth rheoli cwyr clustiau sy'n cael ei arwain, ei reoli a'i gyflawni gan wasanaethau awdioleg a bydd y gwasanaeth hwnnw'n asesu/trin tua 500 o gleifion bob mis. Mae dwy elfen Gwasanaethau Awdioleg Gofal Sylfaenol wedi'u cyflwyno'n rhannol mewn nifer o Glystyrau a Phractisau a cheir cynlluniau i'w hystreyn i bob clwstwr a phractis yn IMTP y Bwrdd Iechyd.

Gwasanaethau Deintyddol - mae gwasanaethau Haen 2 a Haen 3 yn cyfeirio at lefelau o ofal deintyddol arbenigol neu uwch, ym maes gofal eilaidd fel arfer, sydd tu hwnt i driniaethau arferol. Mae'r tîm gofal sylfaenol wedi comisiynu rhywfaint o wasanaethau haen 2 gan gynnwys gwasanaethau orthodonteg a mân lawdriniaethau. Mae'r contractau hyn wedi'u dyroddi i ddarparwyr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac maent yn cynorthwyo i leddfu'r pwysau a brofir gan wasanaethau gofal eilaidd. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r llwyth gwaith hwn, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynnig hyfforddiant mewnol i rywfaint o glinigwyr sydd ar lefel haen 2 ac wedi'u lleoli yn y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i gynorthwyo i gyflawni'r llwyth gwaith hwn.

Bwriedir datblygu a chomisiynu rhagor o wasanaethau canolraddol gan gynnwys gofal adferol sy'n galluogi cleifion i gael eu gweld yn y gymuned yn hytrach nag mewn ysbyty. Disgwylir y bydd hyn ar waith erbyn dechrau 2026/27. Bydd hynny'n dibynnu ar symud cyllid gan nodi y bydd gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio contractau yn annog mwy o wasanaethau deintyddol cymunedol sy'n ymdrin â chyflyrau cymhleth a brofir gan gleifion.

Offthalmoleg / Optometreg - Mae rhaglen WGOS yn dechrau gwneud rhywfaint o gynnydd ond ceir digon o le i wneud rhagor o ran nifer y gweithdrefnau sydd eisoes yn y cynllun a chynnydd yn nifer y gweithdrefnau y mae'r cynllun yn eu cwmpasu. Lansiwyd llwybrau cyflyrau retina meddygol a glawcoma ar 7 Gorffennaf 2025. Disgwylir cynnydd yn nifer y contractwyr sy'n ymgeisio i ddarparu'r llwybrau

Canolfannau Addysgu a Thrin - Mae'r capasiti ar gyfer niferoedd myfyrwyr ac felly, apwyntiadau cleifion, yn dibynnu ar argaeledd darpariaeth goruchwyliwr / mentor. Gyda recriwtio ail fentor IP yn ddiweddar, bydd hyn yn gwella'r gallu hwnnw.

Gwasanaethau Diagnosteg yn y Gymuned (Yn ymgorffori'r gofyniad am Hybiau Diffyg Anadl) - Bydd dull graddol yn dechrau ag ymchwiliadau ynghylch cyflyrau'r galon ac anadlu gan gynnwys gwasanaeth symudol i fesur pwysedd (yn gysylltiedig â phrosiect gwella ansawdd GMS 2025-26) a gwasanaeth ECG symudol (yn gysylltiedig ag atal strôc, codymau â cholli ymwybyddiaeth a marwolaeth sydyn y galon), triniaethau ag ocsid nitrig a fewnanadlir (i ddiagnosio Asthma), a sbirometreg a FeNo (i ddiagnosio COPD).

Dermatoleg - Mae cleifion yn wynebu rhestrau aros hir i gael apwyntiadau cleifion allanol gan y gwasanaethau dermatoleg. Ceir meddygon teulu ledled y Bwrdd Iechyd sydd yn gymwys, trwy gydweithredu â gwasanaethau dermatoleg, i ymgymryd â thrychiadau canser y croen nad yw'n felanoma a amheuir (yn enwedig carsinomâu celloedd gwaelodol) ym maes gofal sylfaenol fel rhan o drefniadau gwasanaeth atodol lleol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried datblygu gwasanaeth atodol cyfeiriedig lleol (DSS) ar gyfer trychiadau os na fydd gwasanaeth cenedlaethol ar gael. Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull y meddalwedd cefnogi penderfyniadau clinigol (CDSS) i gyflawni hyn ar lefel sirol.

Yn ychwanegol, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymchwilio ymhellach ynghylch y defnydd ehangach o dechnoleg dermatosgopau i wella cywirdeb diagnosio canserau'r croen, ac ar sail gwaith mewn mannau eraill, dylai hynny sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfeiriadau at wasanaethau dermatoleg, gan ryddhau capasiti arbenigwyr a lleihau costau mewn lleoliadau ysbytai. Mae'r dechnoleg hon eisoes wedi'i threialu yn Ardal y Canol ac mae DSS lleol wedi'i sefydlu a gellid ei ddefnyddio.

Diabetes - Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â phractisau a chlystyrau i wella perfformiad yn y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol mewn perthynas â'r 8 proses graidd. Mewn nifer o feddygfeydd, gan gynnwys y Meddygfeydd a Reolir gan y Byrddau Iechyd, ceir staff â chymwysterau addas a allai, ar y cyd â nyrsys sy'n arbenigo ym maes diabetes sy'n gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned, ac felly yn symud y gofal o ofal eilaidd i ofal cynradd. Ar hyn o bryd, rhaid disgwyl yn hir i gael apwyntiadau gofal eilaidd, felly byddai hyn yn welliant sylweddol iawn o ran ansawdd, a byddai'n sicrhau bod cymhlethdodau sy'n ymwneud â diabetes yn lleihau a byddai hynny'n cynnig manteision o ran yr economi iechyd i'r system dros dreigl amser. Eto, gellid gwneud hynny gan ddefnyddio'r dull CDSS ar lefel sirol.

Diwrnodau Asesu Cymunedol (CAD) - Dyma fodel arloesol newydd i ddarparu gwasanaethau sy'n symud y gwasanaethau a ddarperir tua'r chwith, gan gynnig gofal mewn mannau ac eithrio ysbytai. Maent yn cynnig asesiadau a thriniaethau i unigolion drwy sgwrs i drafod 'Beth sy'n Bwysig i Chi', ac felly maent yn sicrhau bod anghenion a dewisiadau'r unigolyn yn flaenoriaeth bennaf. Fel arfer, cynhelir CAD mewn canolfannau chwaraeon neu neuaddau cymunedol, a byddant yn cynnwys amrywiaeth helaeth o sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau sy'n bartneriaid i'r Bwrdd a gwasanaethau iechyd sy'n dod ynghyd i rymuso pobl i hunanreoli eu hiechyd. Caiff unigolion eu rheoli trwy ddull 'siop un stop' oni bydd angen eu cynnwys mewn llwybr gwasanaethau ysbyty er mwyn ymchwilio ymhellach i'w cyflwr neu i gynnig triniaethau mwy cymhleth iddynt.

Cynlluniwyd y CAD therapïau yn wreiddiol ar gyfer cleifion sy'n cael ffisiotherapi i drin cyflyrau cyhyrsgerbydol, ond cafodd gwasanaethau podiatreg eu recriwtio'n fuan iawn, ac mae gwasanaethau Therapi Galwedigaethol ac Iechyd Meddwl wedi dangos diddordeb. Cynigir brechiadau hefyd yn ystod y diwrnodau hyn erbyn hyn. Mae'r canlyniadau cyfredol yn gadarnhaol ac mae mwy na 700 o gleifion ffisiotherapi

a 200 o gleifion podiatreg wedi'u gweld hyd yn hyn, a sicrhawyd mwy na 1000 o gysylltiadau rhwng cleifion â sefydliadau sy'n bartneriaid i'r Bwrdd. Mae defnyddio llwybrau SOS ac ymgysylltu cydfuddiannol rhwng gwasanaethau clinigol a sefydliadau sy'n bartneriaid i'r Bwrdd wedi'u croesawu'n frwd, a chafwyd adborth eithriadol o dda gan gleifion a staff. Yn galonogol, ceir mae diddordeb cynyddol gan wasanaethau oddi allan i feysydd therapïau, gan gynnwys y gwasanaeth Arennol sydd wrthi'n cynllunio CAD addysg i gleifion.

Fasectomïau - Mae'r Bwrdd lechyd wedi comisiynu gwasanaeth fasectomïau cymunedol yn flaenorol, a darperid hynny gan feddygon teulu yn gweithio mewn safleoedd Ysbytai Cymunedol. Bydd gwaith cwmpasu'n cael ei gyflawni'n gyflym er mwyn i ail-gomisiynu gwasanaethau o'r fath, gan gynnig mwy o wasanaethau lleol ym mhob ardal, a gwella mynediad at wasanaethau a chwtogi amseroedd aros. Un budd ychwanegol tebygol fyddai leihau'r galw am wasanaethau sterileiddio menywod.

Gwasanaethau Eiddilwch sy'n cael eu llywio gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol

- Mae eiddilwch yn achosi cynnydd o 50% yn nifer yr ymweliadau â meddygfeydd a chynnydd o 216% yn y defnydd o wasanaethau gofal brys. O safbwynt y boblogaeth sy'n eiddil, dylai gofal yn nes at eu cartrefi olygu mynediad ar yr un diwrnod at yr un ystod o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol 7 diwrnod yr wythnos. Gan amlaf, darperir hynny gan wasanaethau eiddilwch aciwt wrth ddrws ffyrnt lleoliadau gofal eilaidd. Gan ystyried y newidiadau mewn demograffeg a heriau o safbwynt daearyddol, dylai'r gwasanaethau hyn fod ar ôl troed awdurdod lleol, gan symud adnoddau a chyfrifoldeb i glystyrau gydag arbenigwyr Gofal yr Henoed yn darparu estyn allan yn hytrach na rhedeg y gwasanaeth o reidrwydd.

Darperid gwasanaethau yn y modd hwn trwy ddull 'beth sy'n bwysig i mi' yn hytrach na dull sy'n cael ei lywio gan wasanaethau, ac os bydd y cyfathrebu a'r ymgysylltu'n briodol, fe wnaiff pobl ddilyn y llwybr hwn yn hytrach na'r un presennol i'r Adran Achosion Brys yn sgil diffyg dewisiadau eraill.

Gofal Cymunedol ar Lefel Uwch Fyth [ECC] - Bydd gwaith yn cael ei wneud ledled meysydd BIPBC i gryfhau'r cynnig i'r boblogaeth yn fwy fyth, a bydd ffocws penodol ar wasanaethau Ysbyty yn y Cartref sy'n cynnig mynediad at brofion yn y man lle rhoddir gofal, Gwasanaeth Gwrthfotigau Mewnwythiennol, diwretigion a hylifau, a byddant oll yn cael eu cynnig 7 diwrnod yr wythnos ac yn cael eu gweithredu gan feddygon teulu cyflogedig a'r timau nyrsio cymunedol y datblygwyd eu sgiliau ymhellach.

3.4 Gwireddu potensial dulliau digidol ac arloesi

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwmo i ddod yn sefydliad sydd wedi'i alluogi o safbwynt digidol ac sy'n darparu gofal mwy diogel, callach a mwy cysylltiedig i bobl Gogledd Cymru. Mae hynny'n cynnwys disodli systemau hen ffasiwn a thameidiog gan sefydlu atebion modern ac integredig sy'n gwella dulliau gwneud penderfyniadau

clinigol, yn gwella diogelwch cleifion, ac yn symleiddio llifoedd gwaith. Mae rhaglen waith helaeth ar waith i foderneiddio systemau clinigol, gwella diogelwch cleifion a gwella effeithlonrwydd gweithredol drwy gyfrwng arloeseddau digidol. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch ansawdd, diogelwch a gofal iechyd sy'n cael ei alluogi'n ddigidol ac yn cynorthwyo i wella'r gofal a gaiff cleifion ac yn cynyddu gallu staff i gynnig gofal gwyb, bob tro. Mae rhai o'r datblygiadau hyn wedi'u hysgogi gan bryderon allweddol ynghylch ansawdd a diogelwch yn lleol, ac mae rhai o'r rhaglenni gwaith cenedlaethol yn rhan o waith y GIG ehangach yng Nghymru.

Datblygiadau Digidol	Cynnydd
Ap y GIG	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu adnoddau i gynorthwyo i lansio fersiwn <u>Alpha</u> Ap y GIG ledled pob gwasanaeth ar y lefel genedlaethol ar 31 Hydref 2025. Bydd gwaith yn parhau o hyn ymlaen ar y cyd â'r timau cenedlaethol i fynd i'r afael ag anawsterau y dylid eu hunioni a gwelliannau y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau, a nodi graddfa a lledaeniad cytunedig ar lefel Cymru gyfan.
System Ddigidol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth	Bwriedir gweithredu system BadgerNet ym Mawrth 2026, a bydd hynny'n cynorthwyo i gynnig gwasanaethau gofal mamolaeth mwy diogel a safonol. Mae meysydd ffocws allweddol yn cynnwys seilwaith TG, integreiddio a hyfforddiant ar gyfer staff.
System Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig	Lansiwyd y cynllun peilot yn Hydref 2025, a bydd y broses i sefydlu'r system yn raddol ym meysydd gwasanaethau cleifion mewnol yn parhau tan ddechrau 2026. Bydd y system hon yn lleihau nifer y camgymeriadau rhagnodi ac yn gwella diogelwch yn ymwneud â meddyginiaethau.
Rhaglen System Gwybodeg Gwasanaethau Radioleg (RISP)	Lansiwyd y system yn llwyddiannus ar 8 Medi 2025, ac fe wnaeth ddisodli systemau etifeddol tameidiog a sefydlu ateb modern ac integredig yn eu lle. Mae'r garreg filltir hon yn gwella llif gwaith delweddu ac yn cynorthwyo i sicrhau penderfyniadau clinigol cyflymach, ac yn sgil hynny, BIPBC yw'r Bwrdd Iechyd mawr cyntaf yng Nghymru i weithredu'r system hon.
System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS):	Mae oedi cenedlaethol wedi effeithio ar amserlenni, ac erbyn hyn, disgwylir y bydd y gweithredu diwygiedig yn digwydd ym Mawrth 2026 mewn perthynas â Gwasanaethau Trallwys Gwaed. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn rhagweithiol, gan ymestyn contractau i ddiogelu parhad a pharatoi i weithredu'r system er gwaethaf heriau technegol sylweddol.
EHR yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu:	Mae gwaith caffael a datblygu achosion busnes ar y gweill i sicrhau system cofnodion electronig gynhwysfawr i fynd i'r afael â materion diogelwch a chydymffurfiaeth a amlygwyd mewn adolygiadau allanol. Bwriedir lansio'r gwasanaeth cyntaf ym mis Tachwedd 2026.
Rhaglen Cofnod Iechyd Electronig (EHR) ar gyfer Gwasanaethau Aciwt a Chymunedol:	Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol ynghylch sefydlu EHR modern a fyddai'n disodli systemau tameidiog ac yn gwella ansawdd gofal. Mae cyflawni hynny yn dibynnu ar bolisi cenedlaethol a phenderfyniadau yn ymwneud ag ariannu.
Rhaglen Ddigidol Gwasanaethau Gofal Llygaid:	Mae gwaith i ddatblygu achos busnes lleol ar y gweill i weithredu ap OpenEyes a systemau cyfeirio, gan wella mynediad at ofal llygaid arbenigol yn nes at gartrefi cleifion. Mae'r heriau'n cynnwys integreiddio cymhleth â systemau cenedlaethol a chyflenwyr trydydd parti, gofynion o ran ymgysylltu â'r gweithlu a'i hyfforddiant, oedi ar y lefel genedlaethol yn effeithio ar amserlenni a chostau, ac ansicrwydd ynghylch cyllid i ariannu rhaglenni ar raddfa fawr.

4.0 Atgyfnerthu sut rydym yn cynnal y GIG

Meysydd a gwmpesir:

4.1 Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant

4.2 Gwynnwch - recriwtio/cadw staff a lles staff

Cyd-destun

Yn ystod haf 2023, fe wnaeth cyfres o Adolygiadau Annibynnol, ymgysylltu helaeth â chydweithwyr a rhanddeiliaid, a ffynonellau eraill o ddirnadaethau bwysleisio bod angen adolygu model gweithredu'r Bwrdd lechyd - sut mae'r sefydliad yn gweithio. Yn sgil hynny, sefydlwyd Rhaglen Sylfeini'r Dyfodol fel un o bedair Rhaglen Newid Mawr y Bwrdd lechyd i sicrhau cydweddu rhwng strwythurau, pobl, systemau, prosesau, diwylliant a strategaethau. Ei nod yw ymateb i'r heriau gweithredol, a datblygu Bwrdd lechyd cynaliadwy, modern, effeithiol, effeithlon ac ystwyth sy'n diwallu anghenion pobl Gogledd Cymru.

4.1 Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant

Ers sefydlu'r Bwrdd newydd, mae camau pendant wedi'u gweithredu i fynd i'r afael â heriau yn ymwneud â diwylliant y Bwrdd lechyd a gosod sylfeini sefydliad tosturiol, cynhwysol ac atebol. Mae'r dull wedi'i lywio gan arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymrwymiad i ymgysylltu'n ystyrion â staff a rhanddeiliaid. Mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu ag arbenigwyr ym meysydd arweinyddiaeth a diwylliant gan gynnwys yr Athro Michael West a Henry Englehardt sydd wedi mynychu cynadleddau, hyfforddiant a sesiynau ar gyfer grwpiau bychan i rannu eu harbenigedd. Yn 2023, cytunodd y Bwrdd ar 9 ymrwymiad o ran bwriadau strategol yn ymwneud â diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu, fel a ganlyn (tri o dan bob pennawd):

Diwylliant	Arweinyddiaeth	Ymgysylltu
1. Archwilio'r diwylliant cyffredin cyfredol	1. Archwilio'r ymagwedd at arweinyddiaeth	1. Ymgysylltu Clinigol
2. Ailystyried gwerthoedd y sefydliad	2. Cyd-fabwysiadu'r dull arweinyddiaeth	2. Mesur ymgysylltu â gweithwyr
3. Datblygu fframwaith ymddygiadau	3. Datblygu rhaglen arweinyddiaeth	3. Hyfforddiant, cymorth, cymell/mentora a gwerthuso/adborth i reolwyr llinell

Arweinyddiaeth

Mae cynadleddau ar gyfer arweinwyr wedi cael croeso ac mae nifer dda wedi'u mynychu. Roedd rhai wedi'u targedu at gynulleidfaoedd mawr yn y Bwrdd lechyd (dros 500) a rhai wedi'u targedu at grwpiau penodol (roedd yr un ddiweddaraf yn gynhadledd ar gyfer arweinwyr clinigol).

Ym mis Mai 2024, fe wnaeth y Bwrdd lechyd gymeradwyo cynllun gweithredu ar gyfer y Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig (ILDF) - cam allweddol o ran

moderneiddio arweinyddiaeth a chryfhau arweinyddiaeth glinigol ledled y sefydliad. Mae'r Fframwaith wedi'i ymgorffori ar draws rhaglenni arweinyddiaeth, gan gynorthwyo arweinwyr gweithredol a chlinigol i ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol i allu arwain yn dosturiol ac yn gynhwysol. Mae hyn yn ategu ein Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth, gan sicrhau bod y caiff gwaith datblygu arweinyddiaeth ei wreiddio yn ein Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ac yn egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol GIG Cymru. Mae rhaglenni a chyfleoedd i ddatblygu arweinwyr wedi'u cynnig ar gyfer uwch arweinwyr, darpar arweinwyr, ac arweinwyr clinigol, gan ymdrin ag atebolrwydd, cydweithio a gwella.

Diwylliant

O ran asesu'r diwylliant a chamau gweithredu i gynorthwyo i newid diwylliant a mesur hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen newid diwylliant, gan ddilyn y model a gydnabyddir yn genedlaethol a ddatblygwyd gan yr Athro Michael West, Cronfa'r Brenin, NHS Improvement, a'r Ganolfan Arweinyddiaeth Greadigol. Mae trawstoriad o staff o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn llywio'r rhaglen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion lleol ac yn mynd i'r afael â'r anawsterau mewn perthynas â diwylliant a nodwyd yn 2023.

Mae enghreifftiau o gynnydd allweddol yn cynnwys:

- Iansio Mentrau Arweinyddiaeth Dosturiol ac ymrwymo i Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol GIG Cymru sy'n arwydd o ymrwymiad clir i arwain yn empathig ac yn onest.
- Datblygu a Gwreiddio Fframwaith Gwerthoedd Newydd ac Ymddygiadau Newydd yn dilyn gwaith ymgysylltu helaeth â dros 500 o aelodau o'r staff. Mae'r rhain yn cael eu hintegreiddio mewn polisïau, gwaith recriwtio, hyfforddiant cynefino, rhaglenni arweinyddiaeth, dulliau i gydnabod staff, a metrigau achredu wardiau. Byddant hefyd yn cael eu hategu gan adnoddau a fydd yn cynnwys pecynnau hyfforddiant, addewidion lleol, offerynnau hunanfyfrio, a phecyn cymorth ar gyfer timau.
- Adeiladu'r Capasiti i Newid Diwylliant - mae bron i gant o Arweinwyr Newid Diwylliant wedi cael hyfforddiant sefydlu trwy raglen strwythuredig o weithgareddau datblygu a chymorth i annog arweinyddiaeth dosturiol a dylanwadu ar newid cadarnhaol ar lawr gwlad. Mae'r arweinwyr hyn yn hwyluso sgysiau ar lefelau'r Bwrdd a'r uwch arweinwyr a grwpiau ffocws ynghylch diwylliant, ac yn cynorthwyo i sicrhau gwelliannau ar y lefel leol.
- Sefydlu swyddogaeth ymgysylltu â staff i feithrin gweithlu cadarnhaol, brwdfrydig ac ymroddedig drwy gydnabod a gwrando ar staff ac ymgysylltu â hwy er mwyn gwella eu profiadau beunyddiol.
- System PADR newydd sydd wrthi'n cael ei datblygu - wedi'i hailgynllunio i alluogi lles, perfformiad a datblygu doniau.

4.2 Gwytnwch - recriwtio/cadw staff a lles staff

Yn 2023, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â'i ddiwylliant a'i weithlu, ac fe wnaeth hynny ychwanegu at bryderon yn ymwneud â morâl staff, trosiant staff, a sefydlogrwydd y sefydliad. Cydnabuwyd bod gwella dulliau cadw staff yn hanfodol - er mwyn ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder a hefyd i sicrhau parhad gofal a lleihau'r ddibyniaeth ar staff dros dro. Mae gwella cyfraddau cadw staff yn lleihau dibyniaeth ar staff dros dro, yn arbed costau, ac yn cryfhau parhad gofal. Mae hefyd yn cynorthwyo i sicrhau gweithlu iachach a mwy ymgysylltiedig - mae hynny'n allweddol er mwyn gallu cynnig gofal diogel a thosturiol.

Ers dechrau 2024, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu dull cadw staff ledled y sefydliad, ac mae hynny'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Ceir cysylltiadau agos rhwng y gwaith hwn a'n Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth, egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol, a mentrau iechyd a lles.

Camau Allweddol a Gymerwyd

- Asesiad Sylfaenol - Defnyddiwyd *Offeryn Hunanasesu Cadw Nyrsys* AaGIC i gasglu data a llywio ein Cynllun Cadw Nyrsys.
- Llesiant ac Ymgysylltu - Cyflwynwyd y rhaglen *Lles, Gwaith a Ni* a'r mentrau *Llais y Staff* i wella lefelau boddhad swydd a chynnig cymorth iechyd meddwl.
- Dull Cydweithredol - Aelodaeth weithredol o *Gymuned Ymarfer Cadw Gweithlu Cymru Gyfan* i rannu arfer gorau a chymhwyso methodolegau Gwella Ansawdd.
- Canfyddiadau sy'n cael eu llywio gan Ddata - Datblygwyd dangosfyrddau sy'n cyd-fynd â Deallusrwydd Busnes ESR a metrigau Cadw Gwella, gan gysylltu data cadw â dangosyddion diwylliannol.
- Gwelliannau Polisi - Diweddarwyd prosesau *Cyfweliadau Gadael a Gweithio Hyblyg* a chyflwynwyd *Sgyrsiau am Aros* i atal ymddiswyddiadau y gellir eu hosgoi.
- Ymyriadau wedi'u Targedu - Yn canolbwyntio ar feysydd trosiant uchel fel Ystadau a Gwasanaethau Atodol, gan gynnal gwelliannau mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yr Effaith Hyd Yma

- Cyfradd Cadw: 91% (Medi 2025), i fyny o 90.4% (Medi 2024) a 90.2% (Medi 2023).
- Trosiant: Wedi gostwng i 7.7% (Medi 2025) o 8.1% (Medi 2024).
- Ymadawyr y gellid eu hosgoi: I lawr o 908 (Medi 2024) i 786 (Medi 2025).
- Trosiant Nyrsio a Bydwreigiaeth: 5.4% erbyn hyn, yr isaf mewn dwy flynedd.
- Ystadau a Gwasanaethau Atebol: Yn dal yn uchel ar 11.8%, sy'n gofyn am gamau gweithredu wedi'u targedu.

- Gwelliant parhaus yn lefelau staffio nyrsys cofrestredig, wedi'i gefnogi gan gynllunio gweithlu effeithiol, piblinellau recriwtio domestig wedi'u cryfhau (effaith rhaglen raddedigion wedi'i symleiddio, ac ehangu llwybrau recriwtio hyblyg i nyrsio gan gynnwys graddau rhan amser), recriwtio rhyngwladol, a mesurau cadw staff gwell. Cyfradd swyddi gwag gyfredol o 5.2%, sydd islaw meincnod GIG Cymru a adroddwyd yn yr Adroddiad Staffio Cenedlaethol (2023/24).

Bydd gwerthusiad cenedlaethol o'r rhaglen gadw staff yn digwydd yn Chwarter 4, ond mae dangosyddion cynnar yn dangos bod ein dull yn gweithio ac yn gosod sylfeini cryf ar gyfer sefydlogrwydd gweithlu a diwylliannol hirdymor.

Arolwg Staff GIG Cymru

Un o'r negeseuon cryfaf o Arolwg Staff GIG Cymru 2024 oedd bod rhai cydweithwyr yn teimlo na fyddai llenwi'r arolwg yn arwain at newid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn benderfynol o herio'r canfyddiad hwnnw drwy ddangos bod adborth staff yn bwysig ac yn ysgogi gweithredu go iawn. Cynnydd yn cynnwys:

- **Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni**

Mae ymgyrch gyfathrebu newydd yn dangos y newidiadau pendant a wnaed mewn ymateb i adborth staff, gan helpu cydweithwyr i weld effaith eu llais.

- **Perchnogaeth Leol ar y Canlyniadau**

Am y tro cyntaf, rhannwyd data arolwg 2024 ar lefelau gwasanaeth a chorfforaethol, gan alluogi creu cynlluniau gweithredu wedi'u targedu. Cynhaliodd timau sesiynau trafod er mwyn i staff allu deall y canlyniadau a llunio gwelliannau yn lleol.

- **Atebolrwydd gan Arweinwyr**

Atebolrwydd clir am sicrhau bod Cyfarwyddwyr yn ymgysylltu'n weithredol â'u timau ac yn datblygu cynlluniau gweithredu ystyrlon. Mae'r cynlluniau hyn bellach wedi'u hymgorffori yn fframwaith perfformiad ac atebolrwydd y sefydliad, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro a'i gynnal.

- **Dull Integredig**

Cymharwyd canfyddiadau'r arolwg ag adborth o waith gwella diwylliant a Sylfeini'r Dyfodol, gan sicrhau bod camau gweithredu yn mynd i'r afael â themâu ehangach fel cadw staff, diogelwch cleifion, a lleisio barn.

Arweiniodd dadansoddiad o **ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2024** at bedwar maes targed allweddol a nodwyd ar gyfer gwelliant ar draws BIPBC.

1: Gwella Ymgysylltiad ac Eiriolaeth Staff - Camau Gweithredu:

- Gwella ffyrdd o weithio drwy'r rhaglen Sylfeini'r Dyfodol.
- Sicrhau bod gan reolwyr sgiliau arwain drwy'r Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig (ILDF).

- Adolygu a gwella'r dull corfforaethol o wobrwyo staff a'u cydnabod.
- Rhannu canlyniadau arolygon, dadansoddiadau a chamau gweithredu yn eang drwy fecanweithiau ymgysylltu lleol.

2: Ymgorffori Tosturi a Chynhwysiant - Camau Gweithredu:

- Dadansoddi adborth staff a chyhoeddi adroddiad synthesis gyda chanfyddiadau clir.
- Lansio gweithdai arweinyddiaeth a dosbarthiadau meistr i reolwyr.
- Gwella rhaglenni cynefino ar gyfer staff newydd.
- Cynnal Sgyrsiau am Ddiwylliant a hyfforddi Arweinwyr Newid Diwylliant.
- Cynnal grwpiau ffocws a diweddarau polisiâu i ddangos tosturi.
- Ymgorffori gwerthoedd sefydliadol newydd a'u hybu.
- Cyflwyno proses arfarnu/PADR ddiwygiedig, wedi'i threialu yn y gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol.

3: Cryfhau diwylliant Lleisio Barn - Camau Gweithredu:

- Adolygu canfyddiadau cyfweiliadau gadael i nodi rhwystrau.
- Rhannu straeon staff (cadarnhaol a negyddol) i godi ymwybyddiaeth a gyrru gwelliant.
- Cynnal hyfforddiant ar godi llais yn ddiogel.
- Cyflwyno arolygon cryno i ategu data arolygon GIG Cymru.
- Cynyddu cyfranogiad yn yr arolwg 5% ar gyfer 2025.
- Buddsoddi yn y gwasanaeth Codi Llais yn Ddiogel i wella mynediad a gweledd.

4: Meithrin Amgylcheddau Gwaith Iach - Camau Gweithredu:

- Hyrwyddo'r llawlyfr Byw'n Dda, Gweithio'n Dda i gyrchu cyngor a chymorth.
- Ehangu'r rhwydwaith Hyrwyddwyr Iechyd a Lles.
- Gwella mynediad at y Gwasanaeth Lles a Chymorth i Staff (SWSS).
- Parhau â Rowndiau Schwartz i staff rannu eu profiadau.
- Cwblhau Asesiadau Anghenion Iechyd i nodi meysydd blaenoriaeth.
- Cefnogi caffis menopos a sesiynau lles pwrpasol.
- Cynnal gweithdai lles ariannol a rheoli straen.
- Adolygu llwybrau cyfeirio a chydweithio â thimau Iechyd a Diogelwch.
- Cefnogi ymyriadau Cymru gyfan er mwyn diogelu staff.

Mae'r mentrau hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni newid diwylliannol cynaliadwy, gwella profiad staff, a sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel i bobl Gogledd Cymru.

5.0 Materion Lleol y Bwrdd

Wrth gyflwyno'r papur tystiolaeth hwn, mae'n werth gosod y cyd-destun i werthfawrogi'n llawn ble mae cynnydd wedi'i wneud a ble mae cynnydd i'w wneud o hyd ar draws rhai o gonglfeini sylfaenol y sefydliad hwn.

Ffurfiwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2009 fel rhan o ddiwygiadau GIG Cymru wrth ddatblygu Byrddau Iechyd Lleol integredig, gan ddwyn ynghyd nifer o sefydliadau rhagflaenol gan gynnwys Ymddiriedolaethau GIG darparwyr a chomisiynu Byrddau Iechyd Lleol. Roedd hyn yn gymhleth iawn yng Ngogledd Cymru oherwydd bod nifer sylweddol o gyrff GIG rhagflaenol. Dyma'r corff sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru gyda chyllideb o tua £2.5 biliwn a gweithlu o dros 20,000 o bobl. Mae'n gweithio gyda 6 Awdurdod Lleol sy'n ffurfio Rhanbarth Gogledd Cymru, yn ogystal ag un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a thri Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Am ran helaeth o'r 10 mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei uwchgyfeirio o dan **Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru** (2015 gyda diweddariadau ers hynny). Cafodd y sefydliad ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig (Uwchgyfeiriad Lefel 5) ym mis Chwefror 2023 ar ôl bod ar Lefel 4/Ymyrraeth Dargedig ers mis Tachwedd 2020, a'i uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig ym mis Mehefin 2015.

Ers i'r Bwrdd newydd (i raddau helaeth) fod yn ei le, y ffocws fu creu sefydliad cynaliadwy ac effeithiol er mwyn diwallu anghenion poblogaeth y rhanbarth yn well.

Mewn ymateb i'r uwchgyfeirio i statws Mesurau Arbennig (Chwefror 2023), sefydlodd y Bwrdd **Gynllun Ymateb i Fesurau Arbennig** (Mai 2023), gan ganolbwyntio ar bum elfen graidd, fel y nodir yn y golofn gyntaf isod. Yn dilyn cyfres o 3 chylch 90 diwrnod a oedd yn canolbwyntio ar sefydlogi'r sefydliad, a gyda chyhoeddi cyfres o **adolygiadau annibynnol** i gynorthwyo'r Bwrdd i fynd i'r afael â'r materion craidd, mabwysiadwyd **cynllun 3 blynedd** ar gyfer cynnydd parhaus. Ymgorfforodd hyn y pum elfen graidd gan nodi Amcanion Strategol ar gyfer pob un fel y nodir yn yr ail golofn isod:

Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig - Mis Mai 2023	Amcanion Strategol y Bwrdd Iechyd - Mis Mawrth 2024
1. Bod yn fwrdd sy'n gweithredu'n dda	1. Datblygu sefydliad effeithiol
2. Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24	2. Datblygu strategaeth a newid hirhoedlog
3. Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach	3. Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol
4. Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion	4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad
5. Bod yn sefydliad sy'n dysgu gwersi ac yn gwella ei hun	5. Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu

Mae materion arwyddocaol a brys yn parhau, yn enwedig o ran mynediad amserol at wasanaethau a chynaliadwyedd y ddarpariaeth gwasanaethau, sy'n gofyn am ffocws a brwdfrydedd di-baid i wella yn y tymor byr a chanolog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Adroddiadau Cynnydd Mesurau Arbennig yn rheolaidd, ac mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynnal Adolygiadau Cynnydd, sy'n dangos cynnydd pwysig ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys llywodraethu corfforaethol, arweinyddiaeth weithredol, ar lefel glinigol a'r bwrdd, gwella ansawdd a diogelwch, gwell gafael a rheolaeth ariannol ac ymgysylltiad o'r newydd â chleifion a rhanddeiliaid. Mae'r elfennau hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer adeiladu sefydliad cynaliadwy ac effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Crynodeb Cynnydd yn erbyn yr Amcanion Strategol:

1. Datblygu sefydliad effeithiol

- Sefydlu Bwrdd a thîm arweinyddiaeth newydd yn dilyn Mesurau Arbennig, gyda pherthnasoedd gwell ac atebolrwydd cliriach.
- [Gwelliant sylweddol](#) o ran llywodraethu corfforaethol ac effeithiolrwydd sefydliadol gan gynnwys Effeithiolrwydd y Bwrdd ac arweinyddiaeth
- Mabwysiadwyd fframweithiau llywodraethu cadarn gan gynnwys Rheolau Sefydlog, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a Chofrestr Risg Gorfforaethol.
- Cryfhawyd yr amgylchedd llywodraethu a rheoli ariannol drwy fwy o oruchwyliaeth a gwelededd, gan fynd i'r afael â materion a nodwyd yn adroddiad Ernst Young a gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad Annibynnol ar Reoli Caffael Contractau gan gynnwys hyfforddiant i dros 500 o aelodau staff.
- Mae 'Sylfeini'r Dyfodol' yn drawsnewidiad sylfaenol ar gyfer model gweithredu'r sefydliad sy'n dwyn ynghyd strwythurau, pobl, systemau, prosesau, diwylliant a strategaethau. Mae'r cyfnod darganfod ar ben ar gyfer y rhaglen newid fawr hon a'r gobaith yw cwblhau'r dyluniad erbyn diwedd mis Mawrth 2026, gan ei chyflwyno yn 2026/27.

2. Datblygu strategaeth a newid hirhoedlog

- Datblygwyd Egwyddorion Dylunio Sefydliadol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2024, sy'n ffurfio'r egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu strategaeth a chynlluniau.
- Cyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolog Integredig cyntaf erioed sydd wedi'i gytbwyso'n ariannol, a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2025. Er na chafodd hyn ei gymeradwyo wedi hynny gan Lywodraeth Cymru, nodwyd arwyddocâd y garreg filltir hon a'r cynnydd a wnaed.
- Cynnydd sy'n cael ei wneud mewn datblygu strategaeth ar draws tri chynnyrch strategol: 1) Bwriad Strategol ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru, wedi'i greu ar y cyd â Phartneriaid, 2) Strategaeth 10 Mlynedd y Bwrdd Iechyd, 3) Cynllun Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd.

- Sefydlwyd pedair Rhaglen Newid Mawr yn cwmpasu Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Gwerth a Chynaliadwyedd a Sylfeini'r Dyfodol. Mae'r rhain wedi blaenoriaethu adnoddau ac yn adrodd yn uniongyrchol drwy'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd.
- Datblygwyd gallu mewnol i reoli newid gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r gwaith sy'n ymwneud ag ysbytai cymunedol Tywyn a Llannerch Banna wedi cael ei gydnabod gan Llais fel un sy'n cymhwyso arfer gorau wrth gymhwyso dull ymgysylltu ystafell cytbwys.

3. Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol

- Gwerthoedd Cymeradwy'r Bwrdd Iechyd; Tosturi, Bod yn Agored a Pharch ym mis Tachwedd 2024, gyda'r Bwrdd yn ymrwymo i'w hymgorffori yn y canlynol:
 - Prosesau recriwtio a chynefino
 - Arfarnu perfformiad (PADR)
 - Rhaglenni cydnabod staff
 - Mentrau datblygu arweinwyr
- Fframwaith Arweinyddiaeth a rhaglen gynhwysfawr wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd, yn cefnogi arweinwyr ar bob lefel.
- Lansio Rhaglen Arweinwyr Newid Diwylliant gydag aelodau staff o bob lefel yn cymryd rhan ac yn cael eu hyfforddi i gefnogi lledaeniad y gwerthoedd y cytunwyd arnynt yn ddiweddar a bod yn gyfrwng ar gyfer newid cadarnhaol.
- Mae dulliau ymgysylltu â dinasyddion yn dal i gael eu cryfhau, gyda gwaith penodol yn ymwneud â lleisiau cymunedol wrth ddatblygu strategaethau a gweithio'n agos gyda Fforwm Pobl Hŷn a Siarter y Plant.

4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad

- Arolwg profiad pobl GIG Cymru (a lansiwyd ym mis Ebrill 2025) - erbyn mis Medi 2025 roedd y Bwrdd Iechyd wedi derbyn 36,548 o ymatebion; rhoddodd 68% sgôr o "dda iawn" i'w profiad cyffredinol, dywedodd 86% eu bod bob amser wedi cael eu trin ag urddas a pharch, dywedodd 90% eu bod "bob amser" yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- Mae'r Rhaglen Gofal Wedi'i Gynllunio yn llywio newid gwirioneddol ar draws chwe ffrwd waith, gyda blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 wedi'u cytuno, gan gynnwys y broses sgrinio a chyn-lawdriniaeth ledled PBC, arloesiadau digidol fel dilysu sgwrsfot EBO ac ymgynghoriadau dros fideo â pharafeddygon i leihau'r galw ar Adrannau Achosion Brys, a blaenoriaethu brysbennu cyfeiriadau cryfach gyda phartneriaid Gofal Sylfaenol.
- Mae System Rheoli Ansawdd (QMS) wedi'i datblygu a'i defnyddio ar draws timau clinigol, gweithredol a chorfforaethol. Mae'r Hwb QMS byw wedi'i nodi fel un o'r goreuon yng Nghymru ac fe'i defnyddir yn weithredol.
- Mae arloesiadau gwasanaeth ar draws y sefydliad yn cynnwys peiriannau Arennol Arbenigol i fesur lefelau hylif cleifion a chyfansoddiad y corff ar gael yn y gymuned, y gwasanaeth rhyddhau twnnel y carpws dan arweiniad

uwchsain cyntaf yng Nghymru, ac ail-ddynodi Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil ar diwmorau'r ymennydd.

- Wroleg: Mae contract bellach ar waith i gleifion Gogledd Cymru dderbyn systectomi yn Ysbyty Arrows Park, gan ddod â gwasanaethau'n ôl yn agosach at adref, gan sicrhau mwy o sefydlogrwydd a phrofiad gwell i gleifion.
- Offthalmoleg: Mae cynnydd yn cael ei wneud i wella amseroedd aros ar gyfer llawdriniaethau cataractau ac mae rhestrau dilynol yn cael eu hadolygu i nodi'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf amdanynt. Mae llwybrau newydd ar gyfer Glaucoma a Retina Meddygol wedi'u cyflwyno trwy ddarparwyr gofal sylfaenol.
- Oncoleg: Mae arloesiadau gwasanaeth yn cynnwys trosglwyddo rhai triniaethau o rai mewnwythiennol i rai isgroenol sy'n rhyddhau capasiti ac yn gwella profiad y claf. Mae Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru wedi'i hail-ddynodi'n Ganolfan Ragoriaeth oherwydd yr ymchwil, y driniaeth a'r gofal a roddir i gleifion â thiwmor ar yr ymennydd ac agorodd Canolfan Maggie's newydd yn Ysbyty Glan Clwyd, y ganolfan gyntaf o'i math yng Ngogledd Cymru.
- Plastigau: Gostyngiad sylweddol mewn rhestrau aros oherwydd mentrau dilysu a rhestrau aros. Lleoliad priodol wedi'i nodi yng Nghanolfan Feddygol Cei Connah ar gyfer clinigau allgymorth plastigau ychwanegol a darpariaeth theatr yn nes at adref ar gyfer poblogaeth gogledd Cymru.
- Prosesau a systemau gwell yn weithredol mewn ymateb i gwynion, gyda pholisi pryderon integredig ar waith ar gyfer digwyddiadau, cwynion ac adolygiadau marwolaethau a'r ganolfan pryderon integredig.

5. Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu

- Mae defnyddio data'n wybodus a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn, a amlygwyd hyn gan lansio porth gweithredol IRIS wedi'i ailddatblygu sy'n darparu gwybodaeth amser real i gefnogi monitro perfformiad, cynllunio, sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gwybodaeth reoli well sy'n ymwneud â llwybrau a llif cleifion.
- Gwelliannau i reoli llywodraethu a systemau mewn perthynas â dysgu o adroddiadau digwyddiadau. Mae'r gwelliannau hyn yn cryfhau llywodraethu, tryloywder ac atebrwydd ar draws y sefydliad.
- Wedi cynnal adolygiad thematig yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau na ddylent byth ddigwydd, gan ddod â gweithwyr proffesiynol o bob disgyblaeth ynghyd i archwilio'r ffactorau sylfaenol ar y cyd a nodi gwelliannau ystyrlon. Mae hyn wedi cefnogi dadansoddiad cynhwysfawr o arferion ac wedi arwain at gamau gweithredu i wella diogelwch cleifion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain y ffordd mewn sawl maes ledled Cymru gan gynnwys:

- Mae Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei hailddynodi'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil, triniaeth a gofal yn ymwneud â thiwmorau'r ymennydd gan Tessa Jowell Brain Cancer Mission.
- Mae system radioleg newydd wedi gwella amserlennu ac adrodd clinigol yn sylweddol ar gyfer delweddau meddygol fel pelydrau-x, sganiau CT, sganiau MRI a sganiau uwchsain.
- Bydd cleifion arenol yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Alltwen yn elwa o beiriannau arbenigol newydd i helpu timau clinigol i fesur ac asesu lefelau hylif a chyfansoddiad corff cleifion gyda mwy o gywirdeb, gan wella cysur, diogelwch a chanlyniadau iechyd hirdymor cleifion.
- Mae hyn yn cynnwys llawdriniaeth ar y dwylo a'r nerfau mewn ystafelloedd llawdriniaeth bach; rhyddhau twnnel y carpws dan arweiniad uwchsain a gwasanaeth mynediad IV newydd. Mae mwy na 300 o driniaethau wedi cael eu cyflawni y tu allan i theatrau; y gwasanaeth rhyddhau twnnel y carpws dan arweiniad uwchsain yn Ysbyty Maelor Wrecsam yw'r gwasanaeth cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'n cynnig adferiad cyflymach, costau is, a chanlyniadau gwell i gleifion heb yr angen am theatr lawdriniaeth draddodiadol, gan arwain at ostyngiad mewn costau o tua £2,100 i £760 ar gyfer pob achos
- Roedd cleifion yn gorfod aros wythnosau am IV o'r blaen ond bellach gallant gael y gwasanaeth ar yr un diwrnod.
- Mae 3 thîm o'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau GIG Cymru, gan gynnwys tîm y Gymraeg am eu gwaith i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog ar wardiau ysbytai.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £9.49 miliwn mewn 2 gyflymydd llinol newydd yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Bydd y rhain yn darparu radiotherapi mwy manwl gywir ac effeithlon, gan dargedu celloedd canser yn gywir a lleihau niwed i'r meinwe gyfagos.
- Croesawodd diwrnod agored theatrau Ysbyty Gwynedd fwy na 70 o fynychwyr ar gyfer profiad y tu ôl i'r llenni, gan arddangos gwaith timau llawfeddygol yr ysbyty a'r dechnoleg arloesol sy'n cefnogi gofal cleifion.
- Yn dilyn buddsoddiad o £4.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru, bydd peiriannau pelydr-x hŷn yn cael eu disodli gan systemau radioleg ddigidol newydd yn Ysbyty Bae Colwyn ac Ysbyty Glan Clwyd. Bydd Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd yn derbyn systemau fflworosgopeg newydd ac yn cael offer mamograffeg newydd.
- Gwasanaeth negeseuon testun rhagweithiol "tra byddwch chi'n aros", swyddogaeth sgwrsio rithwir, a hwb "gofal personol wrth i chi baratoi" newydd ar waith i gefnogi pobl tra byddant ar restr aros. Mae hyn wedi helpu i gwtogi ar niferoedd yr apwyntiadau a gollwyd.

- Penodwyd dwy nyrs arbenigol ym maes profedigaeth i sicrhau bod gan deuluoedd fynediad at gefnogaeth dosturiol, strwythuredig yn ystod y cyfnodau anoddaf. Mae hyn mewn ymateb i bryderon ynghylch gofal diwedd oes ac urddas.

Mae'r Bwrdd hwn yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud, yn enwedig gyda'r ffocws ar fynediad at wasanaethau wedi'u cynllunio a rhai brys ac argyfwng, ond mae hefyd yn bwysig cydbwyso hyn â'r gwelliant a'r arloesedd a amlygwyd drwy gydol y papur hwn. Bydd y Bwrdd yn parhau i adeiladu ar y gwelliannau hyn a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl Gogledd Cymru.